

ECO'r Wyddfa

Rhif: 436
Hydref 2015
Pris: 70c



Llanast yn Llanberis

Yn dilyn cynnal Treiathlon y Brwnt Eithafol yn Llanberis yn ystod y mis diwethaf, gadawyd Cae Dôl y Goeden mewn cyflwr echrydus. Dyma gae chwarae a chae peldroed plant ac ieuenctid y pentref, ond doedd dim croeso iddynt yno ar y Sadwrn arbennig hwn, er fod gemau wedi eu trefnu.

Cwmni gwneud elw o Portsmouth sy'n trefnu cystadleuaeth o'r fath, un o amryw sy'n manteisio ar y ffaith mai'r Wyddfa yw'r mynydd uchaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cwmnïau hyn yn herio'r cystadleuwyr i 'goncro'r' Wyddfa fel rhan o gampau eithafol eraill. Roedd y gystadleuaeth ddiweddaraf yn golygu nofio yn Llyn Padarn, beicio o amgylch yr Wyddfa (hyd at 12 o weithiau), rhedeg i'r copa ac o amgylch y llyn (hyd at 13 o weithiau), a'r cyfan o fewn 24 awr. Ac mae'r pris am gofrestru mewn cystadleuthau o'r fath yn hynod ddrud. Roedd yn amrywio o £125 hyd at £460. A phetai dim ond cant yn cofrestru – wel mae'r sym yn ddigon hawdd! Ond roedd mwy na chant yn cystadlu – ac ychydig ddimeiau coch y delyn o'r elw ddaeth i'r ardal.

Mae Cae Dôl y Goeden ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd, a'r Cyngor yn amlwg sy'n rhoi caniatad i'r cwmnïau hyn ddefnyddio'r cae. Teg gofyn pa fath o amodau a osodir ar y cwmnïau am ddefnyddio cyfleusterau sydd ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd, ac arian trethdalwyr Gwynedd yn talu am ei gynnal a'i gadw?

Dylai Parc Cenedlaethol Eryri fod yn bryderus hefyd ynglŷn â'r defnydd cynyddol o'r Wyddfa ar gyfer y math hyn o gystadleuthau.

Yn gynharach yn y mis roedd cystadleuaeth arall – y Rat Race (wedi ei threfnu gan gwmni o Efrog, a phrisiau cofrestru rhwng £99 a £175) – yn cychwyn yng Nghastell Caernarfon, gyda rhedwyr yn dringo'r Wyddfa o'r Snowdon Ranger cyn disgyn i Lanberis a herio pob math o rwystrau yn hen chwarel Dinorwig a gorffen unwaith eto ar Ddôl y Goeden. O ganlyniad i dywydd gwlyb cyn y digwyddiad, roedd wyneb y llwybr o'r Snowdon Ranger i Fwlch Maesgwm wedi ei falurio gan draed cannoedd o gystadleuwyr.

Mae Llanberis yn cael ei ddisgrifio fel Canolfan Antur Cymru, ond Llanberis a'r ardal a ddylai elwa yn ariannol o'r statws hwn, nid cwmnïau estron sy'n defnyddio'r ardal, ei hatyniadau a'i chyfleusterau, er mwyn llenwi eu pocedi eu hunain.

Cysylltodd yr "Eco" efo Cyngor Gwynedd i gael sylwadau am y digwyddiad diweddaraf, a dyma'r ymateb. Mae Cae Dôl y Goeden yn rhan o Barc Gwledig Padarn, ac yn cael ei weinyddu gan staff y Parc. Ar wahân i Ras yr Wyddfa, mae pob un arall sy'n gwneud cais am ddefnyddio'r cae yn gorfod talu. Mae'r ffi (nas datgelwyd) yn amrywio yn ôl y digwyddiad, a'r arian yn mynd tuag at gynnal y cae a'r Parc.

Gosodwyd amodau ar gwmni y Brwnt Eithafol, a doedd dim cerbydau i fod ar y cae. Oherwydd fod y digwyddiad yn parhau dros nos, rhoddwyd hawl i swyddogion osod pebyll ar y cae er diogelwch. Ni chadwyd at yr amod 'dim ceir', ac yr oedd y cwmni hefyd wedi caniatáu i gystadleuwyr osod pebyll ar y cae. O ganlyniad i hyn mae'r cwmni wedi eu cosbi, ac wedi colli eu hernes o £400.

ECO'r Wyddfa

RHIF 436
Hydref 2015
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Hafan,
Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Rhian Elin George, Swn yr Engan,
Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts,
Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, Peris,
56 Glanffynnon (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'RECO 2015

Rhifyn	Copi i law	Bwndelu	Ble
Tachwedd	Hydref 18	Hydref 30	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 15	Tachwedd 27	Caeathro
Nadolig/Ionawr	Rhagfyr 6	Rhagfyr 18	Llanrug

LLYTHYRAU

Delio efo problem baw ci.

Annwyl Olygydd,

Mae problem baw ci ar ein strydoedd, palmentydd a'n llwybrau yn cynyddu'n flynyddol ac erbyn hyn, dyma'r pwnc sy'n codi amlaf yng Nghyngor Cymuned Llanrug fel llawer o gynghorau eraill. Mae'n ymddangos fod y rhan fwyaf o berchnogion cwn yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn gwneud yn siwr fod ganddynt fag pwrpasol yn eu meddiant tra'n mynd a'r ci am dro ac yn ei roi mewn bin ar eu ffordd gartref neu yn eu bin gwyrrdd ar ol cyrraedd adref. Yn anffodus mae nifer fechan o berchnogion yn gadael i'w ci faeddu ac yn troi yn ol am adref heb glirio ar eu holau. Mae hyn yn anghyfrifol, yn creu perygl i iechyd ac yn drosedd sy'n cario cosb rhwng £60 a £1000. Mae'r Cyngor wedi derbyn cwynion hefyd am rieni'n gadael plant ifanc fynd a'r ci "am dro". Teimlwn nad yw hi'n deg i ddisgwyl i blant mor ifanc gario'r cyfrifoldeb o sicrhau glendid ein hardal. Hefyd rydym yn ymwybodol o gwn yn cael eu gadael allan i "wneud eu busnes" ar y stryd yn enwedig ar ol iddi nosi neu yn gynnar yn y bore. Rwy'n gwybod fod nifer fawr o'r pentref yn teimlo'n flin iawn am hyn ac yn disgwyl i'r Cyngor wneud rhywbeth i wella'r sefyllfa.

Mae Cyngor Gwynedd yn gallu cosbi rhai sy'n peidio a chlirio ar ol eu cwn ac mae rhai o'r pentref wedi cael cosb yn ddiweddar. Mae'r Cyngor Cymuned wedi penderfynnu cydweithredu gyda Chyngor Gwynedd i dynu eu sylw at engreiffitiau o berchnogion yn gadael ci faeddu a bydd eu swyddogion yn delio gydag unrhyw gwyn. Gofynnaf am gydweithrediad ein darllenwyr drwy adael i'r swyddog perthnasol gael gwybod am enghreifftiau drwy ffonio 01286-679066 neu gysylltu ag un o'r Cynghorwyr Cymuned lleol. Gellir cysylltu yn yr un modd ynglyn ag engreiffitiau o sbwriel yn cael ei adael yn ein mannau cyhoeddus.

Goronwy Hughes, Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llanrug

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£20: Er cof am Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos, Bethel; Di-enw Bangor.

Er cof am Mrs Nancy Jones, Y Garnedd, Ffordd yr Orsaf, Llanberis gan Ralph, Eryl a'r teulu.

Ted, John a Jane a theulu'r diweddar Myrddyn Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis.

£10: Er cof am Mari Elizabeth Evans, Gift Shop, Llanberis a Leeds House, Caernarfon; Mrs Olwen Jones, 7 Rhes Victoria, Llanberis; Steffan Roberts, Pen Y Ceunant Isaf, Llanberis; Steven Williams, 22 Maes Padarn, Llanberis. Mr a Mrs J.A.Jones (dim cyfeiriad).

£5: Kelvin a Rhian Jones, 3 Bryn Eglwys, Penisarwaun; Osian Trefor, 1 Bron Helen, Deiniolen; Maureen, 32 New Street, Deiniolen.

£4: Gwilym Williams, Llangefni.

Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd!

Annwyl Olygydd,

Yn ystod y mis a aeth heibio cynhaliwyd ras y 'Brutal Extreme Triathlon' ar gae Dôl y Goeden, Llanberis. Ras beicio, nofio a rhedeg sydd yn cael ei chynnal gan gwmni proffesiynol allanol yw'r digwyddiad yma. Eiddo Cyngor Gwynedd yw'r holl ddôl erbyn heddiw a syndod o'r mwyaf oedd iddynt ganiatáu defnydd o brif gae chwarae a phêl droed y pentref fel maes parcio a lle i wersylla dros nos i'r rhai hynny a oedd yn cystadlu yn y digwyddiad. Siom pellach oedd dewis y llecyn yma gan fod yna ddigonedd o lefydd eraill ar y ddôl at ei defnydd. Mae gwersylla a pharcio ceir ar gae o'r fath yn achosi llygredd a difrod.

Roedd timau pêl droed y plant wedi trefnu gemau ar gyfer y diwrnod nodedig ar yr union gae ac roedd rhaid iddynt symud i fan arall yn ddirybudd. Dyma'r bedwaredd flwyddyn yn olynol i hyn ddigwydd gan y cwmni yma a siom nad ydynt yn parchu ein heiddo. Eiddo trigolion Gwynedd

yw caeau'r ddôl a gorau po gyntaf i Gyngor Gwynedd roi blaenoriaethu i bobol a phlant y fro yn hytrach nac i gwmnïau estron. Gosodwyd rheolau llym gan yr un cyngor pryd mae ysgol gynradd y pentref yn defnyddio'r lleoliad ar gyfer Mabolgampau gan fynnu mai dim ond dau o geir ar y mwyaf fydd yn cael mynediad i'r union gae.

Tydi'r digwyddiadau hyn, sydd ar gynnydd yn ein hardaloedd, yn cyfrannu fawr ddim i economi honedig y fro. Gosodwyd pabell enfawr ar ran arall o'r ddôl yn ogystal â fan symudol estron yn gwerthu bwydydd o bump o'r gloch y bore ymlaen ar gyfer y rhai oedd yn cystadlu. Ar ben hyn roedd yna faniau yn gwerthu dilladau a manion o bob math ar gyfer beicwyr er bod siopau yn y pentref yn cynnig yr un gwasanaeth. Uniaith Saesneg oedd iaith y digwyddiad gyda hyd yn oed arwydd 'No Entry' ger un fynedfa i gae'r pentref. A fynodd Cyngor Gwynedd fod defnydd

o'r Gymraeg yn hanfodol ar ein heiddo?

Mae hyn yn gystadleuaeth anheg i fusnesau lleol sydd yn talu trethi busnes llawn i Gyngor Gwynedd a hefyd i safleoedd gwersylla swyddogol ein hardal. Mae digwyddiadau o'r fath hefyd yn creu anawsterau i drigolion lleol ar adegau gyda beicwyr yn achosi tagfeydd traffig ar ein ffyrdd. Yn ystod y ras doedd yna neb o'r pentref yn cefnogi'r digwyddiad tra roedd yr holl feysydd parcio, gan gynnwys rhai o eiddo Cyngor Gwynedd, bron yn wag.

Beth, tybed, yw blaenoriaethau Cyngor Gwynedd y dyddiau hyn? Cefnogi a gwarchod tiroedd a buddiannau trigolion a busnesau'r pentref ynteu croesawu cwmnïau estron i greu rhwystrau ar ein ffyrdd a difrod yng Nghae'r Ddôl.

Yr eiddoch yn gywir,

Padarn y Pryderwr.

(Cafwyd enw a chyfeiriad y llythyrwr)

CYLCH LLENYDDOL CAERNARFONA GWYRFAI

Cynhelir cyfarfod o Gylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï ar nos Fawrth, 20ed Hydref, yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr gwadd fydd Dr Llŷr Gwyn Lewis a thestun ei ddarlith fydd 'Rhyw Flodau Rhyfel'. Estynnir croeso cynnes i bawb. Noddir y digwyddiad gan Llenyddiaeth Cymru.

Cyfarfod Blynnyddol "Eco'r Wyddfa"

Y Sefydliad Coffa, Llanrug
Nos Fercher, Hydref 7fed am
7.00pm.

Croeso cynnes i bawb o
gefnogwyr y papur bro.

Dowch draw i leisio
barn, i feirniadu, i gynnig
gwelliannau neu i gynnig
cymorth ymarferol.

(mae gwir angen am
unigolion/grwpiau i lwytho
hen luniau ar wefan yr
"Eco")



CYCHWYN GWYCH!

Arian i ni, ac nid i bocedi tramor!

Mae cwmni YnNI Padarn Peris newydd gael caniatâd cynllunio i roi gwaith hydro ar afon Goch Llanberis. Cwmni yw hwn er budd cymdeithas. Bydd llawer o'u helw yn mynd i ychwanegu at eu cynlluniau eraill, ond yr hir a phrif fwriad ydy rhoi yr elw yn ôl i'n cymdeithas.

Rhaid i elw ein dyffryn aros yn ein dyffryn!

Yn ôl cyfansoddiad y cwmni ni all unrhyw un o'r pwyllgor ennill yr un dimai goch o'r cynllun drwy gyfansoddiad cyfreithiol y cwmni.

Does na neb ar y pwyllgor yn ennill yr un geiniog o'r fenter, yn wir da ni'n colli o'n hamser a'n teithio.

Da'n ni'i cyfarfod yn ystafelloedd Petes Eates Llanberis. Mae Pete yn darparu dwy ystafell am ddim i'r gymuned. Pete's Eate's yw ein swyddfa.

Elusen fydd yn dosrannu'r elw fel na fydd yna golled o 30% drwy dreth. Byddwn yn gosod terfynau arbennig ar sut y rhennir yr arian ond yr elusen arbennig fydd yn penderfynu ar y rhannu. Mae na gwmni Co-op wedi arbenigo yn y maes y gallwn ei ddefnyddio ond os oes na rhywun lleol, dewch ymlaen. Bydd yna ganllawiau pendant ar sut i ddosrannu'r arian yn cael eu gosod ganddom.

Os da chi a diddordeb neu yn aelod o elusen lleol dewch i gysylltiad a ni i gael trafodaeth.

Gwyndaf Hughes, Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug, LL55 4PH

Yn ystod y mis aeth heibio

Newyddion cenedlaethol a rhyngwladol sydd wedi hawlio sylw'r cyfryngau i gyd dros yr wythnosau diwethaf.

.... Symudodd y pwyslais o Calais i Fôr y Canoldir i wledydd Dwyrain Erwop wrth i don ar ôl ton o bobloedd ddylifo o Affrica a'r Dwyrain Canol. Ac yn ddibynnol ar safbwyntiau gwleidyddol roeddent unai'n ffoaduriaid yn dianc rhag erledigaeth a rhyfel neu'n fudwyr yn chwilio am well safon byw. Ac yr oedd y ddau safbwynt gwahanol hwn yn lliwio'r modd y trafodwyd sut i ddelio efo'r miloedd. Mae Llywodraethau Cymru a'r Alban eisoes wedi datgan fod croeso i ffoaduriaid gael lloches yn y ddwy wlad. Mae'r Llywodraeth Llundainig ar y llaw arall ag agwedd braidd yn wahanol, ac yn mynnu mai mynd at wraidd y broblem yng ngwledydd Affrica a'r Dwyrain Canol yw'r modd o ddatrys yr argyfwng.

Mae mewnfudo yn effeithio arnom ninnau yng Nghymru hefyd, a hynny ym mro'r "Eco". Sawl gwaith y clywsom fod mewnfudwyr Saesneg eu hiaith yn gwanychu cymunedau Cymraeg. Sawl gwaith dros y misoedd diwethaf y bu dadleuon gan wahanol grwpiau gwleidyddol ac ieithyddol ynglŷn â bwriad Cyngor Gwynedd i godi tai honedig ddianghenrhaid mewn gwahanol ardaloedd o'r sir. Ac mae'n ddiddorol fod datblygiad enfawr yng Nghoetmor, Bethesda wedi ei wrthod ar sail peryglu cynefin ystlumiad ac nid ar sail gwanychu'r gymuned Gymraeg.

Ar Sadwrn olaf mis Medi cynhaliwyd Cymanfa yn Nyffryn Aeron, Ceredigion. Na, nid Cymanfa Ganu, ond cymanfa i rannu syniadau ar sut i groesawu a chymhathu'r mewnfudwyr di-Gymraeg i gymunedau'r gorllewin. Bydd yn ddiddorol gweld pa syniadau fydd yn deillio ohoni.

.... Daeth penllanw ymgyrch y Blaid Lafur i ddewis arweinydd newydd a oedd yn syndod i bawb ond i'w ddilynwyr selog. Pa blaid wleidyddol bynnag yr ydych yn ei chefnogi, bydd Jeremy Corbyn yn sicr o ddod a chwa o awyriach i wleidyddiaeth, a siawns na fydd hynny'n annog mwy i gymryd diddordeb ymarferol mewn gwleidyddiaeth.

.... Disgynnodd taflen Newyddion Cyngor Gwynedd drwy focs llythyrau pob un ohonom yn ein gwahodd i gymryd rhan ymarferol yn Her Gwynedd. Yn ystod y cyfnod rhwng Medi 28ain a Thachwedd 12fed bydd yr ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus mwyaf yn hanes y Cyngor yn digwydd. O fewn ein bro bydd cyfarfod yn Ysgol Brynrefail, Llanrug am 6.45pm ar y 3ydd o Dachwedd, ac yna yn y Mynydd Gwefru, Llanberis rhwng deg y bore a hanner dydd ar Dachwedd 12fed. Sesiwn 'Galw i Mewn' sydd yn Llanberis, gyda chroeso i unrhyw un droi i mewn i leisio barn. Ar gyfer y Fforwm Cyhoeddus yn Ysgol Brynrefail, rhaid cofrestru eich diddordeb drwy lenwi ffurflen ar www.gwynedd.gov.uk/cofrestruhergwynedd neu ffonio 01766 771000.

.... Ac i ddod: Cyfarfod Blynnyddol yr "Eco" (gweler hysbyseb ar y dudalen hon) Anaml y bydd canmoliaeth, ond mae rhyw gŵyn yn dod i sylw'r golygydd yn fisol. Dyma eich cyfle i leisio barn ac i gynnig cymorth ymarferol. Cofiwch mai gwirfoddolwyr yw'r rhai sy'n gofalu fod y papur bro yn cyrraedd eich cartref bob mis. Yr hwn sydd ganddo glustiau i wrando....

Marchnad Ogwen

Ail Sadwrn o bob mis, 9.30 - 1.30

Neuadd Ogwen, Bethesda

**Bwydydd, Crefftau,
Cynnyrch Lleol**

10/10, 14/11, 25/11 (NOS), 12/12

Croeso Cynnes

**www.marchnadogwen.co.uk
Facebook a Twitter**

Ysgol Gynradd

Dymunwn yn dda i'r 14 o gyn ddisgyblion sydd wedi dechrau yn Ysgol Uwchradd Brynrefail ac estynnwn groeso arbennig i 24 o blant y dosbarth Meithrin.

Estynnwn groeso i Olivia, blwyddyn 6, Harry, blwyddyn 3 ac i Miss Elin Prysor Williams a fydd yn gweithio fel cymhorthydd anghenion dysgu ychwanegol.

Hoffem ddiolch i Glwb y Mamau, Waunfawr, am eu rhodd hael o £214.09 i Gronfâr Ysgol.

Mae plant Blwyddyn 1 a 2 wedi cychwyn ar eu gwersi nofio tra bod plant blwyddyn 5 a 6 yn cael gwersi gymnasteg a phlant blwyddyn 3 a 4 yn cael gwersi tenis yng Nghaernarfon.

Llongyfarchiadau i aelodau newydd y Cyngor Ysgol sef, Martha ac Osian, o ddosbarth Mynydd y Grug; Efa a Gruff Mei o ddosbarth Cefn Du; Emma a Gruff o ddosbarth yr Wyddfa.

Ailgylchu dillad Diolch i bawb am gefnogi yr ymgyrch ailgylchu dillad. Derbyniodd yr ysgol tua £150.00 gan yr Antur dros y flwyddyn ddiwethaf. Hyfforddiant Beicio Bydd blwyddyn 6 yn derbyn hyfforddiant sgiliau beicio yn ystod mis Medi sef tystysgrif Lefel 1 a 2.

Plas Menai Bydd 24 o blant blwyddyn 5 a 6 yn treulio tridiau ym Mhlas Menai ddechrau mis Hydref. Diolch i'r athrawon ymlaen llaw am roi o'u hamser i oruchwyllo'r plant.

Gwersi Pêl-droed Bydd gwersi pêl-droed Kick it yn cychwyn bob nos Wener am gyfnod o chwe wythnos.

Dyddiadau i'w cadw mewn cof: Bydd y ffotograffydd yn tynnu lluniau unigol o'r plant fore ddydd Iau, Hydref y 8fed, am 8.30 y bore. Ni fydd clwb brecwast y diwrnod hwnnw.



Capteiniad ac Isgapteiniaid Gwyrfa



Gruff ac Emma o ddosbarth y r Wyddfa



Osian ac Martha

Capteiniaid ac Isgapteiniaid Cwellyn



Gruff Mei ac Efa o ddosbarth Cefn Du



Meithrin



Cyngor Ysgol

Parhad WAUNFAWR



Clwb 300 Enillwyr y Clwb am fis Awst oedd: £30: Mrs Pearl Williams, Parc; £20: Mrs Hawys Tuff, Crymllwyn, 8 Llys y Waun; £10: Ms Elen Roberts, Bodrida.

Sefydliad y Merched Mewn cyfarfod o'r Sefydliad a gynhaliwyd ar Fedi'r 3ydd croesawodd Catherine, y Llywydd, yr aelodau'n ôl wedi gwyliau'r haf. Roedd yn falch o weld Carol ac Iris yn well yn dilyn eu triniaeth lawfeddygol. Cyfeiriodd hefyd at Pat a Wenna, y ddwy wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod ond y ddwy adref erbyn hyn ac yn gwella yn ara deg. Edrych ymlaen at weld y ddwy yn ôl yn fuan.

Siaradwraig am y pnawn oedd Carol, ac fe gawsom dipyn o'i hanes fel merch ifanc 16 oed yn dysgu i fod yn weinyddes yn Ysbyty Whiston. Amser caled iawn, mae'n debyg. Tipyn o wahaniaeth yn y ffordd y maent yn cael eu dysgu heddiw, medda hi. Yn y cyfarfod nesaf, Pat Jones, Brynrefail, fydd y wraig wadd i roi arddangosiad o sut i wneud trefniant blodau ar gyfer y bwrdd Nadolig. Croeso cynnes i aelodau newydd. Rydym yn cyfarfod yn Festri Eglwys y Waun ar y dydd Iau cyntaf o'r mis am 1.30 y pnawn.

Priodasau

Dydd Sadwrn, Awst 22, yng nghapel pentref Nant Gwrtheyrn, priodwyd Eryll Dafydd, Glanfa a Peter Calley. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Dydd Sadwrn, Awst 29 yn Eglwys y Waun, bu priodas Beth Greasley, Stad Pant y Waun ac Aron Morgan o Bontnewydd. Llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau iddynt. Yma yn y Waun y byddant yn ymgartrefu.

Dymunwn bob hapusrwydd i Graham ac Alison Rowlands,

Arfon House, ar eu priodas. Llongyfarchiadau mawr ichi ar yr achlysur hapus.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Delyth Pritchard a Rhys Garden ar eu priodas hwythau. Mae'r pâr ifanc wedi ymgartrefu yn Stad Llys y Waun.

Cwpwl ifanc arall a briodwyd yn ystod yr haf yw Ffion a Kyle Jones. Llongyfarchiadau ichi a'n dymuniadau gorau am briodas hapus yn eich cartref newydd yn 3 Llys y Waun.

Dymunwn anfon ein llongyfarchiadau a'n dymuniadau gorau i Fiona Johnstone (Tŷ Gwyn, gynt) ar achlysur ei phriodas â Phil Cowrey.

Yng Ngerddi Botanic Birmingham priodwyd David (Parc) a Purvy. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt ar achlysur eu priodas.

Babanod Bach Newydd

Llongyfarchiadau i Keith a Mandy, 5 Ael y Bryn, ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach, Tomos Wyn, i'w merch Wenna a'i chymar Malcolm. Mae Tomos yn or-wŷr i Ronnie ac Ilid Williams, Stad Bro Waun.

Llongyfarchiadau i Doug a Iola, Bron Eifion, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Eta Wynn i'w merch, Hefina a Julian.

Adref o'r Ysbyty

Croeso adref o'r ysbyty ar ôl cael triniaeth i Louie Clag, Stad Bro Waun ac i Adam a Kyle Humphreys, Stad Ael-y-Bryn. Gobeithio y byddwch yn gwella yn fuan, hogia.

Mae'n dda deall fod Mrs Menna McDaid, Lloches; Mrs Wenna Edwards, Groeslon Isa; Sioned, 17 Stad Tŷ Hen ac Elfed Jones, Bryn Menai. Wedi cael dod adref o'r ysbyty. Hyderwn eich bod yn gwella.

Croeso adref hefyd i Emrys

Owen, 'Refail, wedi iddo gael triniaeth i'w lygaid mewn ysbyty yn Lerpwl.

Dymunwn wellhad buan i Nora, Gilfach, Teras Cefn Du, wedi iddi dorri asgwrn ei garddwrn drwy anffawd yn ei chartref. Anfonwn ein cofion hefyd at ei mam sydd ddim wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Diolchiadau

Hoffai Serenna Ann Williams, 9 Bryn Golau, ddiolch i bawb â'i noddodd hi yn ddiweddar pan wnaeth daith feicio nodedig 25 milltir o Gaernarfon i Bryncir ac yn ôl gyda charfan Karate WTKF. Cododd Serenna ychydig dros £300 ar gyfer y Sgwad Karate.

Dymuna Pat Parry, Ffridd Felan, ddiolch o galon i bawb am eu cardiau, e-byst, galwadau ffôn ac ymweliadau yn ystod ei salwch diweddar.

Dymuna Phil a Marian a theulu y ddiweddar Mrs Kit Jones ddiolch i'w holl berthnasau, ffrindiau a chymdogion am y cymwynasau a'r geiriau caredig o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl iawn iddynt. Diolch am y rhoddion a gyflwynwyd i Feddygfa Liverpool House er cof amdani.

Profedigaethau

Gartref, yng nghwmni ei theulu, wedi cyfnod byr o salwch, bu farw Barbara, priod y diweddar Geraint Griffith. Mam hoffus Valerie, Allan, Wendy a Mandy. Nain a hen nain garedeg ac annwyl. Cydymdeimlwn yn ddwys â chi yn eich colled a'ch hiraeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad dwys at Glenys Pierce, Bryn

Gwyn, yn ei phrofedigaeth o golli ei phriod, Elfyn Pierce, ac â Teresa, Susan, Wendy, Carmen a Dylan a'r wyrion a'r wyresau yn eu colled a'u hiraeth am dad a thaid annwyl.

Cydymdeimlwn yn ddwys ac Edgar Owen, Glyn Awel a Keith Owen, Stad Tŷ Hen a'u teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain garedeg ac annwyl iddynt.

Cydymdeimlwn yn ddwys â theulu Gorwel y Môr yn eu profedigaeth o golli mam, Rhian, a'r plant wedi colli nain arbennig iawn.

Daeth y brofedigaeth o golli ei phriod, John Nathaniel, i ran Beti Owen, 9 Tref Eilian. Cydymdeimlwn yn ddwys â hi a'r plant, Anthony ac Amanda, ac â'i ddwy chwaer Gwendoline a Jenifred a'r teulu yn eu colled fawr a'u hiraeth. Un o'r Waun oedd John Nathaniel, wedi ei fagu yn Stad Bryn Golau.

Diolch Dymuna Bet a'r teulu, 9 Tref Eilian, ddiolch o galon am yr holl gardiau, galwadau ffôn a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i feddygon a staff Meddygfa Waunfawr am yr holl ofal a gafodd John Nathaniel dros yr holl flynyddoedd. Cyflwynwyd y rhoddion a dderbyniwyd er cof am John Nathaniel i Feddygfa Waunfawr a chronfa ymchwil y salwch Alzheimer.

Dymuna Jenifred, Gwendoline a'r teulu ddiolch o galon i ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn a phob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli eu brawd, John Nathaniel.

Yn Eglwys Sant Padarn Llanberis

Nos Wener HYDREF 9^{Fed.} am 7.30

Côr Meibion Dyffryn Peris
Yn Cyflwyno
THE PEOPLES COLLEGE CHOIR
 DUBLIN

Cyda **Côr Plant Ysgol Dolbadarn**

Mynediad £5.

Gwasanaethau Eglwys y Waun am fis Hydref

4: Dr Tudor Ellis

11: Mr Eurig Wyn

18: Y Parch R.E. Hughes

25: Cyfarfod Gweddi a Thrafodaeth.

Tach 1: Oedfa Aelodau (Rob, Alma ac Olwen)

Bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod am 10 o'r gloch ar fore Sul yn y capel. Mae croeso i blant ymuno.

Gobeithio i aelodau yr Ysgol Sul fwynhau y trip yn ystod y mis diwethaf.

Merched y Wawr
Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf nos Fercher, Medi'r 9fed. Croesawyd pawb gan y Llywydd newydd, Mair Read. Gosododd 2 sialens i'r aelodau, defnyddio gwefan y gangen a dechrau cerdded mwy eleni. Dymunwyd yn dda i Rhian Hughes ar ei hymddeoliad ac ar ddod yn nain i Lily Mai, felly hefyd i Anne Elis ar ddod yn nain eto i Tomos Pyrs ac i Mary Evans ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Estynnwyd ein llongyfarchiadau i Alys Jones, Owain Llestyn ac Angylion Kelly a fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol.

Diddorwyd yr aelodau gan Owain Llestyn Thomas, enillydd mewn 2 Eisteddfod Genedlaethol eleni ar yr Unawd Corn, gan gynnwys y Rhuban Glas ym Meifod.

Gweinwyd lluniaeth anrhydeddus gan aelodau'r pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Gwyneth Jones, Marred Owen ac Eirlys Sharpe. Bydd ein cyfarfod nesaf nos Fercher, Hydref 14eg am 7.30 yn festri Cysegr, pan fyddwn yn croesawu Pierino Algieri. Croeso i aelodau newydd.

ClwbBroBethel Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf o'r Clwb yn ddiweddar gyda'r Parchedig Marcus Wyn Robinson yn llywyddu. Wrth groesawu pawb ynghyd cydymdeimlwyd â theulu y ddiweddar Gwyneth

Hughes, un o aelodau ffyddlon y Clwb, a fu farw yn ystod yr haf. Llongyfarchwyd Geraint ac Anne Elis ar enedigaeth wŷr newydd sef Tomos Pyrs, plentyn bach Dyfan a Lucy ac anfonwyd cofion at Seiriol Davies sydd wedi bod yn yr Ysbyty yng Nghaerdydd ond erbyn hyn wedi dychwelyd gartref. Hefyd dymunwyd yn dda i Richard Llwyd sydd yn derbyn triniaeth ar hyn o bryd ym Manceinion.

Annette Bryn Parri oedd wedi dod draw a chafwyd orig difyr iawn yn ei chwmmi wrth iddi fynd â phawb i lawr 'Memory Lane' wrth gyflwyno darnau ar y piano o 1900 ymlaen gan gychwyn gyda 'Maple Leaf Rag' a'r 'Entertainer' gan Scott Joplin. Difyr oedd clywed hefyd storïau tu ôl i ambell ddarn ac roedd pawb yn barod i ymuno wrth ganu yr hen ffefrynnau.

Diolchwyd yn gynnes iawn iddi am agor tymor newydd y Clwb gyda gwledd gerddorol a chyfle i brocio'r cof, gan Glenys Griffiths a diolch i ferched y banad, Ann Ellis Williams ac Ivy Wright.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Hydref 6ed. yng nghwmni Huw Davies yn sgwrsio am ei waith yn Antur Waunfawr.

Dymuna Arfon a Maldwyn a'u teulu oll ddiolch i ffrindiau a chyfeillion am eu cydymdeimlad a chardiau yn

dilyn marwolaeth Gwyneth Hughes, 36 Bro Rhos. Diolch hefyd i Stephen Jones, trefnwr yr angladd ac i dafarn Y Bedol am drefnu'r bwyd wedyn. Fe fydd y rhoddion a gasglwyd yn mynd at Eglwys Llanddeiniolen

Noson o flasau Gwin

Noson hwyliog yng nghwmni y Parch Marcus Robinson yn

Neuadd Bethel, nos Wener Tachwedd 13eg 2015, am 7 o'r gloch. Dowch i ymuno â ni am noson o hwyl. Mae'r elw yn mynd at Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd

Tocyn yn £10. Am docyn ffoniwch Kathryn Jones ar 10248670501

EISTEDDFOD BETHEL 2015

Cynhelir yr Eisteddfod eleni brynhawn a nos Sadwrn, Hydref 17, am 12:30 a 6:30 o'r gloch.

Yn wahanol i'r hyn a welir ar y rhaglen – y beirniad llefaru fydd Bethan Dobson, Garndolbenmaen, a'r beirniad cerdd fydd Esyllt Tudur, Llanrwst (ymddiheuriadau am y dryswch)

Bydd y noson ddawns yn cael ei chynnal nos Fawrth, 13eg o Hydref, am 6:00 o'r gloch. - cystadleuwyr i roi eu henwau i Sasha neu Zoe Williams erbyn nos Wener Hydref yr 2il (os am gystadlu fel unigolyn neu mewn grŵp).

Os am gystadlu yn y cystadlaethau gwaith celf, y thema eleni yw 'PERTHYN'. Beth am fynd ati i wneud cerdyn cyfarch, collage, model 3D, addurno cacennau bach, creu anifail allan o lysiau neu ffrwythau? Yn ogystal mae dwy gystadleuaeth llên, sydd yn agored i bawb - llinell goll a Chystadleuaeth Llên yr Ardd sydd yn cynnwys unrhyw ffurf o ryddiaith boed yn stori fer, ysgrif neu ddyddiadur - testunau a manylion llawn y celf a'r llên yn rhaglen yr Eisteddfod sydd ar gael am ddim yn y Swyddfa Bost.

Bydd angen i'r gwaith celf gyrraedd y neuadd rhwng 6 a 7pm nos Fercher, 14eg o Hydref, a'r llên i fod yn llaw yr ysgrifenyddes erbyn Hydref 1af.

Os oes rhywun yn dymuno rhoi rhoddion (ariannol) tuag at yr Eisteddfod i wneud hyn drwy law Mrs Edwina Morris, Treflys - diolch yn fawr. Gofynnir yn garedig hefyd i enillwyr tlysau / cwpanau Eisteddfod 2014 eu dychwelyd i Lowri Haf Evans, 3 Tan y Cae o leiaf wythnos cyn yr Eisteddfod. Diolch i holl swyddogion Pwyllgor yr Eisteddfod am eu gwaith caled ac i drigolion y pentref am eu cefnogaeth barod bob amser. Edrychwn ymlaen at Eisteddfod lwyddiannus.

North Wales
SIGNS
Gogledd Cymru grid[®]
northwalessigns.com | 07766956673
Uned A9, Cibyn Ind Estate, Caernarfon
Arwyddion | Cerbydau | Digwyddiad

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

ORIEL
CWM
CWM Y GLO
Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle
PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol
Richard S. Humphreys
Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

CAEATHRO

Rhiannon Roberts, Cefn Rhos Isaf,
Penrhos. rhiannonmai@btinternet.com



Miri Medi. Cafwyd diwrnod hyfryd o gymdeithasu yn y Miri Medi ar Fedi Sed gyda gemau a chwaraeon i'r plant ac yna am 5yh cafwyd Rhost Mochyn a chyfle i lawer o bobl roi'r byd yn ei le! Diolch yn fawr iawn unwaith eto i aelodau y Pwyllgor Cae Chwarae am yr holl drefnu, gosod pebyll a'r clirio ar ddiwedd y dydd.

Gwasanaethau y Capel Ar Hydref 4ydd am 2 o'r gloch, cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch dan ofal y Gweinidog, Y Parch Marcus Robinson.

Ar Hydref 18ed am 10 y bore gwasanaethir gan Y Parch Trefor Jones, Caernarfon.

Damwain Cafodd William Elis Hughes, Cefn Gwern, ddamwain ddrwg yn Dinas Mawddwy yn ddiweddar ac, ar ôl cyfnod yn Ysbyty Stoke mae'n gwella yn ara deg. Anfonwn gofion cynnes atoch, Wil.

Profedigaeth Bu angladd Mrs Mary Owen (10 Bryn Gof, gynt) yng Nghapel Caeathro ar Fedi 22ain. Anfonwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu oll yn eu colled.

Casglu a lledaenu gwybodaeth am Gaeathro

Gan nad oes cofnod / casgliad swyddogol o wybodaeth am hanes y pentref ar gael, y bwriad yw i wneud hynny fel ei fod ar gael i unrhyw un sydd â diddordeb, heddiw ac i'r dyfodol. Mae Caeathro yn gymuned gyfoethog iawn ei hanes a'i diwylliant, yn emynwyr, beirdd, gwyddonwyr a.y.b. Bydd cyfarfod yn agored i BAWB am 7yh ar nos Iau, Hyd 22ain, yn yng Nghanolfan y Capel. A oes

gennych rhywbeth i'w gynnig e.e. gwybodaeth wedi ei gasglu eisoes, chwant ymchwilio i rywbeth penodol, diddordeb mewn holi unigolion, sgiliau dylunio, cysylltiadau mewn maes arbennig, profiad o gynllun tebyg? Dewch i'r cyfarfod pwysig hwn ar nos Iau, Hydref 22.

Tynfa Misol Dyma enillwyr y dynfa am fis Medi:

(84) £40: Huw E. Jones, Brogaredd; (46) £25: Aled Jones, 9 Rhes Glan Gwna; (78) £15: Nan Hughes Roberts, 10 Erw Wen; (50) £5: Tony ac Eirian Griffiths, Annedd.

Croeso Mae Dewi a Llinos Griffith a'u plant, Lowri a Robat, ar fin ymgartrefu yn Eryl Cottage. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yng Nghaeathro.

Clwb Merched Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar nos Iau, Medi 24, gyda sgwrs ddifyr ar sut i fynd o gwmpas datblygu eich coeden deulu. Am wybodaeth pellach am raglen y tymor cysylltwch â'r ysgrifennydd, Mair Davies ar 07930 836039.

Llongyfarchiadau Dymuniadau gorau i bobl ifanc Caeathro a'r cylch fu'n llwyddiannus mewn arholiadau yn ystod yr haf, a bendith arnoch yn y dyfodol.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts.
Ffôn: 870580

Ail-wynebu ffordd Yn dilyn effeithiau rhew a llifogydd y blynyddoedd diwethaf a'r trwsio dros dro beunydd ers peth amser, rwy'n siŵr ein bod oll fel pentrefwyr erbyn hyn yn croesawu y gwelliant hir-ddisgwyliedig ond ardderchog sydd wedi ei wneud drwy ail-wynebu y ffordd drwy'r pentref.

Oedfa Bedydd Yn ystod yr Oedfa Foreol yn Eglwys Sant Peris, Nant Peris, yn ddiweddar bedyddiwyd Nedw Dafydd, mab David a Lynne Elias, a brawd bach Siôn a Megan Dafydd, Ffrwd Goch. Gweinyddwyd gan y Parch Ddr Carol Roberts a'r organydd oedd y Dr William Munro.

Yr Eglwys Bresbyteraidd

Y Gymdeithas

Cafwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Awst 20fed.

Llywydd y noson oedd Ifanwy Jones, Rhandir. Wedi ein harwain mewn defosiwn, croesawodd y siaradwr gwadd, sef Wyre Thomas, Waunfawr, i roi sgwrs am un o'i ymweliadau â Rwmania. Cyflwynodd i ni gefndir y wlad cyn mynd ymlaen drwy gyfrwng darluniau i'n tywys i ffordd o fyw y trigolion. Roedd pawb yn werthfawrogol o'r sgwrs a diolchwyd yn gynnes iawn iddo gan lywydd y noson. Bydd cyfarfod olaf y tymor ddydd Iau, Hydref 8fed. Y cyfarfod hwn fydd ein taith flynyddol ac eleni mae ein hysgrifennydd, Dafydd Ellis, wedi trefnu ymweliad â'i fro enedigol i ardal Dolwyddelan a Llanrwst.

Oedfaon Hydref am 5.00 yr hwyr

4: Parch Marcus Robinson (Gweinidog)

11: Parch Eric Jones, Bangor

18: Parch Glenys Jones, Pwllheli

25: OEDFA DDIOLOCHGARWCH

dan arweiniad y Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

CWMY GLO

Undeb y Mamau I ail ddechrau ein cyfarfodydd am y flwyddyn cyfarfu'r aelodau yn Eglwys Sant Mair bnawn Mawrth, 15 Medi. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Rheithor, Canon Roger Donaldson. Ar ôl y gwasanaeth cafwyd cyfarfod a lluniaeth yn y festri. Croesawyd pawb i'r cyfarfod i ddechrau tymor newydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Enid Taylor, Iona Morgan a Jenny S. Jones. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd rhai materion. Gwnaed elw o £163 o bunnoedd yn y Sêl Enfys. Cinio Nadolig. Cyfrannu at y Gwres a'r Trydan Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel Howel. Rhoddwyd y raffl ganddi hefyd ac fe'i henillwyd gan Dorothy. Diolchwyd i'r Rheithor ac Auriel gan Marjorie. Terfynwyd y cyfarfod trwy adrodd y gras yn Gymraeg a Saesneg. Cyfarfod nesaf ar 20 Hydref.

Cyfarchion arbennig i Hilda Orritt, Moranedd, Cwm y Glo, sydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 ar ddydd Mercher 14 o Hydref. Pen-blwydd Hapus iawn!

Ymddiheuriad Ymddiheuraf i Bethan Hughes am y ddau gangymeriad yn rhifyn olaf yr Eco. Derbyniodd Bethan, 17 Dôl Afon, driniaeth yn Ysbyty Gobowen ac nid Ysbyty Gwynedd a rhoddwyd rhif anghywir i'w chartref.

Llongyfarchiadau i Siôn, Mona, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed, hefyd i Michael, Gwylfa, ar ddatlu ei ben-blwydd yntau yn 21 oed.

—Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn—

Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255

Ffenestri CADNANT Windows
iorwerthwilliams@fsmail.net
DRYSAU □ FFENESTRI
A CONSERVATORIS UPVC
AMCANBRIS AMDDIM
13 Eryri, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX 01248670833 • 07801346652

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291



Erbyn hyn y mae hynny o haf a gawsom wedi dod i ben a'r tywydd yn hydrefol iawn ac yn tywyllu yn fuan a'r gwyliau drosodd. Llongyfarchiadau i blant yr ardal a lwyddodd mor wych yn yr arholiadau ac y sydd, erbyn hyn, wedi dechrau ar gyfnod newydd yn eu bywyd unwaith eto. Yn y colegau ac yn gorfod gadael cartref am y tro cyntaf, ac yn sefyll ar eu traed eu hunain. Tipyn o newid.

Gobeithio y gallant wynebu y bywyd newydd a chymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd a mwynhau bywyd coleg. Ar ddiwedd eu cwrs, faint bynnag o flynyddoedd fydd hynny byddant yn gallu dweud iddynt fwynhau eu dyddiau yn y coleg a'u bod wedi gwneud llawer o ffrindiau newydd. Ffrindiau am oes gobeithio.

Dymuniadau gorau ichwi, cewch chwarae a mwynhau ond cofiwch y bydd yn rhaid gweithio yn galed hefyd. Pob lwc i chi i gyd a gobeithio am lwyddiant ar ddiwedd y cwrs.

Yr Hen Ganolfan Erbyn hyn y mae'r Ganolfan yn gaffi. Rhywbeth newydd yn yr ardal ac, ar hyn o bryd, mae dipyn o fynd a dod a gobeithio y bydd yn llewyrchus a phob lwc iddynt. Ond, yn anffodus, ychydig iawn sydd yn mynd â'u ceir i'r maes parcio er bod y perchennog wedi rhoi arwydd yn dangos y ffordd yno. Mae y mwyafrif yn parcio ar y ffordd a chan fod tro mor ddrwg ar dop y ffordd i fyny o'r Fachwen, maent yn gwneud pethau yn anodd iawn. Drwy beidio â mynd i'r maes parcio rwyf yn gweld damwain yn digwydd. Felly, os am fynd i'r caffi triwch gofio am rai eraill sydd yn teithio ar y ffordd ac wedi gwneud hynny ers blynyddoedd.

Cofion Anfonwn ein cofion fel ardal at Mrs Priscilla Williams sydd wedi cael dod adref o'r ysbyty ers tua chwe wythnos bellach ar ôl llawdriniaeth fawr. Mae yn gwella ac yn codi bob dydd ac yn mwynhau ei bywyd. Cyn y daw'r Eco o'r wasg fe fu Mrs Williams yn 1010 ar 24ain o Hydref os Duw a'i myn. Edrych ymlaen am barti eto, Mrs Williams, a phob bendith. Daliwch ati.

Hefyd ein cofion anwylaf at Mrs Megan Morris, Minffordd, sydd ar hyn o bryd ym Mhlas Garnedd, Bangor. Er yn 100 oed mae hithau yn mwynhau bywyd i'r eithaf ac yn edrych yn dda iawn. Daliwch chwithau ati, Mrs Morris. Pawb yn holi amdanoch.

Marwolaeth Ar Awst 14, yn 96 mlwydd oed, bu farw Mr Myrddin Pritchard, 1 Ffordd Padarn, Llanberis. Ymgwymerwr angladdau ydoedd a thad annwyl i'n gweinidog, Y Parchedig John

Pritchard. Mae ein cydymdeimlad yn fawr hefo fo a'r teulu oll yn eu galar a'u hiraeth. Dim ond tri mis yn ôl yr oedd yn claddu ei fam.

Gobeithiaf y caf faddeuant am ei alw yn Myrddin, felly yr oedd pawb yn yr ardal yn ei adnabod. Yr oedd Myrddin yn ŵr bonheddig ac yn barod iawn i wrando, yn llawn cydymdeimlad ac wrth ei fodd yn sgwsio. Rwyf yn sicr mai ychydig iawn o dai yn yr ardal sydd yna nad oedd Myrddin wedi bod ynddynt. Ar ôl i'r diweddar Mr John Evans, Gallt y Foel, ymddeol, Myrddin a gymerodd drosodd ac yr wyf yn meddwl mai diwedd y saithdegau oedd hynny. Doedd Myrddin ddim heb ei golled ei hun, oherwydd colodd fab, Noel, ac yntau yn ddim ond un ar ddeg oed, trwy ddamwain yn Llanberis. Credaf na ddaeth dros y golled fawr yma hyd ei fedd.

Cofiaf imi fod mewn angladd bachgen yn ei arddegau yn Eglwys Crist Llandinorwig ac yn y fynwent wedyn. Myrddin yn gadael y fynwent a throi i wynebu Ty'n Clwt, finnau yn mynd ato i ofyn tybed oedd o ddim yn dda a'i ateb imi oedd, a hynny dan deimlad mawr, na allai weld corff arall yn cael ei roi yn y ddadear mor ifanc. Na, yma yr oedd cariad tad yn drech nag ef. Daeth y cyfan yn fyw iawn i'w feddwl a dyn a ŵyr sawl corff yr oedd wedi ei gladdu. Ni fu imi ddweud am hyn wrth neb erioed, doedd o ddim am imi wneud. Cyfrinach rhyngddo fo a fi oedd hyn.

Cafodd fyw i oedran teg er iddo orfod diweddu ei oes yn y cartref ym Mhenisarwaun lle cafodd bob gofal a charedigrwydd. Bu yn cartrefu yno ers Chwefror 2014.

Bu ei angladd yn Capel Coch ar ddydd Iau, 20 Awst, lle yr oedd y capel yn orlawn ac aelodau yno o bob un o'r eglwysi y mae Mr Pritchard yn weinidog arnynt. Diolch i'r aelodau am ddangos parch a chydymdeimlad â Mr Pritchard, Ted a Jane a'r holl deulu. Hawdd ydoedd gweld fod Aled wedi colli un pwysig iawn iddo ef. Tybed sawl cyfrinach oedd rhyngddo fo a Taid. Diolch am i ffrind i Mr Pritchard, sef y Parch Bryn Williams, Penisarwaun, sydd yn weinidog ym Mhwlheli yn awr, gymryd rhan yn y gwasanaeth yn y capel. Diolch Bryn.

Cydymdeimlaf unwaith eto hefo Mr Pritchard a'i chwaer a'r teulu oll gan obeithio ichwi gael Duw yn agos yn ystod y dyddiau tywyll yma. Duw a fyddo gyda chwi oll fel teulu.

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

TM JONES

SEFYDLWYD DROS 20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW

CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol

01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

GWAITH COFFAOL

LLANRUG

Ffôn Gwaith
(01286) 672898

Cartref
(01286) 871833

Symudol 07778 127394

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

*Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal*

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaeddwrch Mewn Steil- Mewn Cerbyd Rolls Royce
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDDI ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

Dymuniadau Da Rydym yn anfon ein cofion at Mrs Joan Williams, Allt Riwith, sydd newydd ddathlu pen-blwydd arbennig yn ystod mis Medi. Gobeithio i chwi fwynhau'r dathlu gyda'r teulu.

Gwellhad - Anfonwn ein cofion at bawb sydd wedi treulio amser yn yr Ysbyty yn ddiweddar neu ddim wedi bod yn teimlo'n dda.

Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen

Pêl Bonws - enillydd mis Gorffennaf oedd Mrs Gwenda Jones, 11 Bryn Tirion - rhif 37. Mis Awst Miss Nancy Williams, 9 Llys y Gwynt - rhif 10. Llongyfarchiadau!

Bedydd Dydd Sul, Medi 13eg, yn Eglwys Santes Helen, bedyddiwyd Lili Megan, merch Kelvin a Rhian Jones, 3 Bryn Eglwys, a chwaer fach Mali Efa. Gweinyddwyd gan y Parch Ddr Carol Roberts.

Pwyllgor Neuadd

Gymuned Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf a'r enillwyr oedd: 1. Victor Jones, Bryntirion; 2. Carol Jones, Deiniolen; Enillwyr Awst oedd 1. Karen Durber, Llys Arddun; 2. Helen Owen, 7 Bryn Hyfryd; Enillwyr Medi oedd 1. Dafydd Owen, 7 Bryn Hyfryd; 2. Carol Adlam, Bryntirion.

Y mae Catalog Webb Ivory ar ei daith, ei angen yn ôl i Phyllis erbyn Tachwedd 1af os gwelwch yn dda.

Cynhelir Marathon Eryri ar Sadwrn, Hydref 24ain. Gobeithio y cawn nifer o wirfoddolwyr i helpu ym Mhenygwryd.

Eisteddfod Bentref 2015

Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Hydref 16, am 6.00 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Y beirniaid yw: Cerdd - Ceren Lloyd; Llefaru - Ian Lloyd; Celf: - Elan Rhys; Coginio - Jean Roberts; Llên - Y Prifardd Ieuan Wyn. Testunau ar gael gan Ann Ifans, Sycharth (Ffôn 872407).

Y mae cystadlaethau oed Cynradd yn gyfyngedig i blant Ysgol Penisarwaun yn unig ond yn agored i bawb o Flwyddyn 7 i fyny.

Dylai copiau Hunan Ddewisiad gyrraedd yr ysgrifennydd, Ann Ifans, erbyn Hydref 2il ynghyd â gwaith ysgrifenedig. Deunydd Ffotograffiaeth, Cyfrifiadur, Arlunio a Gwaith Llaw i'r Neuadd Gymuned erbyn Hydref 14. Cynnyrch coginio i'r Neuadd erbyn hanner

dydd, dydd Gwener, Hydref 15. Cofiwch am y Limrig a'r creu brawddeg o'r enw 'Ynys Afallon' i law yr ysgrifennydd erbyn Hydref 9fed.

Diolch Dymuna Eurgain Haf a Ioan, Rhiwen, Pontypridd, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar enedigaeth eu merch fach, Lois Rhodd. Dymuna Ann a Dafydd hefyd ddiolch i gynifer ohonoch o'r pentref a bro'r Eco am eich caredigrwydd ar achlysur mor werthfawr. Y mae Cian Harri yntau wrth ei fodd gyda'r rhodd amhriadiwy o chwaer fach mor annwyl.

Eglwys St Helen Gwasanaethau mis Hydref: Cymun Bendigaid bob dydd Sul am 11 y bore.

Diolchgarwch - Trefn gwasanaethau a digwyddiadau Diolchgarwch

Addurno'r Eglwys: Bydd yr Eglwys ar agor am 9 y bore dydd Sadwrn, Hydref 10fed, i'w haddurno ar gyfer yr Ŵyl Ddiolchgarwch. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw gymorth, blodau, llysiau a ffrwythau.

Gwasanaethau Diolchgarwch Dydd Sul, Hydref 11eg am 11 y bore

Cymun Bendigaid Teuluol ac undebol gydag aelodau o Gapel ac Ysgol Sul Bosra gyda'r Ficer, y Parch Ddr Carol Roberts. Bydd anerchiad gan Mrs Jennifer Ann Roberts, Galluogydd Gweinidogaeth Plant, Ieuenctid a Theuluoedd (CYFME) Synod Bangor. Yn ystod y gwasanaeth fe dderbynnir bwydydd yn ddiolchgar tuag at y Banc Bwyd lleol (manylion pellach i'w gyhoeddi).

Nos Lun, Hydref 12fed am 6.00

Gwasanaeth Diolchgarwch gyda'r Ficer, y Parch Ddr Carol Roberts. Pregethir gan y pregethwr gwadd, y Parch Lloyd Jones, cyn Ficer y plwyf, Ficer Bro Beuno Sant, Uwch Gwyrfa.

Swper Cynhaeaf

Fe gynhelir Swper Cynhaeaf Bro Eryri yn Neuadd yr Eglwys i ddilyn y gwasanaeth am 7 yr hwyr. Mae tocynnau yn £5 ac ar gael yn yr Eglwys gan y swyddogion neu drwy law Selwyn.

Fe fydd anerchiad byr yn dilyn y bwyd gan Mrs Lis Perkins ar gynnyrch y Fasnach Deg. Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn y gwasanaeth a'r bwyd.

Gyrfa Chwist



Aelodau Ysgol Sul Bosra gyda hanes Mari Jones.

Ysgol Sul Bosra Rydym yn falch o ddeall fod ein Harolygwr ffyddlon, Mr Evie Jones, yn gwella'n dda ac rydym yn anfon ein cofion anwylaf ato.

Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Deiniolen a Chwm y Glo bawn Sul, Medi 20fed, yn y Neuadd Gymuned. Cymerwyd y rhan dechreuol gan aelodau Ysgol Sul Bosra. Dymunir llongyfarch y plant am eu gwaith clodwiw iawn yn olrhain hanes Mari Jones a'i Beibl Bach. Gwnaed casgliad at 'Gynllun EFE' a diolchir i Andrew Settatee am baratoi gweithgaredd bywiog i'r plant. Mwynhawyd cyd-ganu caneuon hynod o fywiog gyda Susan Williams. Roedd y plant yn amlwg yn mwynhau cymryd rhan yn y symudiadau. Diolch Susan. Diolch hefyd i'r athrawon am eu dyfalbarhad gyda'r plant ac i'r rhieni am eu hanogaeth ac am drefnu lluniaeth amheuthun i'r plant a'r oedolion ar ddiwedd y gwasanaeth.

Dymunir diolch hefyd i aelodau Ysgol Sul Bosra am gefnogi'r Gymanfa Fethodistaidd yn Shiloh, Tregarth, yn ddiweddar a llongyfarchiadau iddynt am gasglu £100 tuag at y Genhadaeth Dramor.

Gobeithir trefnu i gyd-addoli ag aelodau Eglwys Santes Helen amser Diolchgarwch, Hydref 11, gyda chyfle i gyfrannu bwydydd tuag at y 'Banc Bwyd' lleol. Fel yr arfer, byddwn yn ymuno i gofio'r bechgyn a syrthiodd yn y ddau Ryfel Byd wrth y Gofeb o flaen yr Eglwys ar fore Sul y Cofio.

Fe gynhelir Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys bob nos Fawrth am 7.30. Mae croeso i ddechreuwyd ymuno unrhyw adeg.

Bingo Arian

Fe gynhelir Bingo Arian yn Neuadd yr Eglwys ar yr 2il a'r 4ydd nos Fercher yn y mis am 7.00 o'r gloch. Bydd elwy Bingo

yn cael ei rannu gyda gwahanol sefydliadau ac yn y blaen o fewn y pentref. I wneud yn siŵr bod eich sefydliad yn cael rhan o'r arian dewch draw i'w drafod yn y Bingo nesaf. Dyddiadau mis Hydref yw y 14eg a'r 28ain. Mae'r jacpot yn y bingo nesaf yn £100. Mae croeso i bawb yn y fro i ymuno â ni.

RHOSTIO MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER
POB

ACHLYSUR

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL

PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a

John Brynafon
LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos

rhwng

7.00pm ac 11.00pm



CHWILOTA

chwilota.wordpress.com


Yr Hen Siandri a dyddio llun.

Benthyciwyd y llun cerdyn post hwn sy'n dangos pwmp petrol a gwesty Pen y Gwryd gan Gwilym Morris Jones, Bontnewydd. Mae'n eithaf amlwg fod pawb sydd yn y llun wedi aros yn llonydd ar gyfer y ffotograffydd, a'r postmon hyd yn oed, yn smalio rhoi llythyr yn llaw rhywun! Does gen i ddim diddordeb mewn unrhyw fath o foduron, ond mae'n ymddangos yn od fod y bibell betrol yn bwydo'r tanc oddi fewn i'r car!

Wedi dweud hynny, mae'n eithaf posibl dyddio'r llun yn weddol gywir, a hynny oherwydd ei bod yn bosib (gyda chwydd-wydr) ddarllen rhif cofrestru'r car – CC3457.

Mae rhai cannoedd o gofnodion rhifau cofrestru ceir yn yr Archifdy yng Nghaernarfon, er fod cannoedd o rai eraill wedi eu colli neu'n anghyflawn. Mae dyddiad hefyd ar gefn y cerdyn post, a nodyn byr wedi ei gyfeirio at Captain G. Jones, National Benzole Company, Doc Fictoria, Caernarfon. Ar wahan i'r stamp post, mae stamp arall ar y cefn, sef 'Pen y Gwryd Hotel, Snowdonia, Wales.' Ac yna, pwt o nodyn wedi ei ddyddio 16eg o Ragfyr 1924 sy'n darllen: "Thanks for card. A mid-green would be best; it will wash lighter with the rain... .. photo of some of the best men in Caernarvonshire herewith." Arwyddwyd y nodyn gan AL.

Fe sylwch hefyd mai pwmp petrol o eiddo'r National Benzole Company sydd ym Mhen y Gwryd. Dyma fynd ati felly i chwilio am unrhyw wybodaeth am CC3457 – a'i gael! Mae'r car yn cael ei ddisgrifio fel Open Touring Overland DeLuxe o liw llwyd, ac iddo bedair o seddi. A'r perchennog oedd AL, sef Arthur Lockwood. Yn anffodus does dim cofnodion yn dangos pryd y daeth y car i'w feddiant, ond gwerthwyd y car ym mis Ionawr 1925 i'r Lion Garages, Amwythig, ac erbyn 1927 roedd ym meddiant S.E.Manford a'i Feibion, Hordley, Ellesmere. Gwerthwyd y car felly o fewn mis i anfon y cerdyn post. Tybed a yw Arthur Lockwood yn bwriadu prynu car newydd, ac yn holi



Captain G Jones am un o liw 'mid-green' ?

Ond beth am Arthur Lockwood ei hun? Roedd yn wreiddiol o Swydd Efrog, a daeth i Lanberis ym mis Awst 1908 i weithio yn swyddfeydd Cwmni Trydan Cwm Dyli. Fe'i dyrchafwyd i fod yn Arolygwr ar y gwaith, a symudodd i fyw i dy unllawr yng Nghwm Dyli. Lai na blwyddyn wedi ei ddyfodiad i'r ardal priododd efo Florence Bloomfield, rheolwraig Gwesty Pen y Gwryd. Roedd y briodas yn Eglwys Beddgelert ym mis Mai 1909. Yn dilyn ei briodas cafodd ganiatad gan Gwmni Cwm Dyli i fyw ym Mhen y Gwryd yn hytrach nac ar safle'r gwaith. Erbyn Hydref 1921 roedd y ddau ohonynt yn berchnogion ar y gwesty. Arhosodd Pen y Gwryd yn eu meddiant hyd fis Hydref 1944 pan gafodd ei werthu i deulu Riddetts, a'i werthu drachefn yn 1947 i deulu Briggs, sy'n parhau i redeg y busnes.

Oherwydd y wybodaeth sydd ar gael, gellir dyddio'r llun rhwng Hydref 1921 (pan brynwyd y gwesty gan Arthur Lockwood, a'r ffaith fod stamp Pen y Gwryd ar y cerdyn post) a Rhafyr 1924, sef dyddiad y cerdyn post.

Yn anffodus, does dim gwybodaeth am y ffotograffydd - na chwaith am weddill y bobl yn y llun, os na all un ohonoch chi ddarllenwyr helpu....

Englyn Pwy?

Tra ar ymweliad diweddar a Phen Draw'r Byd, sef ardal Aberdaron, troi i mewn i fynwent Eglwys Llanfaelrhys, a sylwi ar yr englyn canlynol ar garreg fedd yno. Dyddiad y farwolaeth oedd 1842.

Yma daearwyd mam dirion – y da
A doeth ei dibenion;
I'r gweiniaid mae mawr gwynion
Gau llaw hael yn y gell hon.

Rhoi'r enw'r awdur fel G. Peris. Ond ai Gutyn Peris (Griffith Williams), genedigol o'r Hafod Olau, Waunfawr yw neu Gwilym Peris (William Williams), genedigol o Dy'n yr Aelgerth, Llanberis ? A pha gysylltiad oedd gan y naill neu'r llall efo Llanfaelrhys?

Bu'r ddau yn byw yn ardal Chwarel y Penrhyn, a chladdwyd Gutyn ym mynwent Llandygai yn 1838 a Gwilym ym mynwent Llanllechid yn 1847.

Ni chafwyd amser i chwilio drwy wahanol weithiau barddonol y ddau (oedd yn ddisgyblion neu 'gywion' i Ddafydd Ddu Eryri), ond yr unig gysylltiad posib yw fod mam Gutyn Peris, sef Catrin ferch Morgan Gruffydd, yn wreiddiol o Lyn.

Mae'n bosib hefyd ei fod yn englyn addas a phoblogaidd i'w osod ar garreg fedd mam.

Alun S.

Derbyniwyd erthygl gan Gwilym Morris Jones am 'Robin Jac' ein bro ni. Oherwydd diffyg gofod bydd yn rhaid disgwyl tan rifyn Tachwedd i'w mwynhau.

Priodas yn Llanberis?

Eifion Roberts, Llanberis oedd yr unig un i ymateb i'r cais am wybodaeth ynglyn a lleoliad y briodas, gydag awgrymiadau am y rhai oedd yn priodi.

Roedd Griffith Davies, ei wraig, Jane, a'u plant yn byw yn 5 Charlotte Street, Llanberis yn ol Cyfrifiad 1911. Un o'r plant rheini oedd Jenny. Darganfu Eifion gofnod o briodas rhwng Jenny Davies a gwr o'r enw William Davies yn 1927, ac y mae'n credu mai llun o'r briodas hon a ymddangosodd yn y rhifyn diwethaf o'r "Eco". Mae'n meddwl hefyd fod Gwilym Davies, brawd Jenny yn

y llun. Yn ddiweddarach daeth Gwilym Davies yn dad i Gomer (cyn athro ym Mrynrefail) ac Emlyn (cyfarwyddwr teledu). Os yw damcaniaeth Eifion yn gywir, yna gall Gomer a/neu Emlyn gadarnhau neu wrthbrofi hynny!

Mae'n bendant mai o flaen Avon House, Llanberis y cafodd y llun ei dynnu. A ble roedd/mae Avon House? Erbyn heddiw, mae'r adeilad (ar ei newydd wedd) yn cael ei adnabod fel y Gwynedd Restaurant.



Dyma lun o'r hen Avon House sydd ym meddiant Eifion. Mae ganddo gof plentyn o wraig o'r enw Mrs Maxwell, Stryd Warden, yn cadw siop y drws nesaf i Avon House ac yn gwerthu paraffin a nwyddau ty. Oes rhywun all ychwanegu at y wybodaeth hon?

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515) e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia



ARVONIA

- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvon.co.uk





LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740



Codi Arian Ar ddydd Sadwrn, Medi'r 12fed, bu gwirfoddolwyr o Frigâd Dân Llanberis yn codi arian tuag at ddwy elusen, Ysgol Feithrin Llanberis/Nant Peris a'r Firefighters Charity, drwy olchi ceir o flaen eu Gorsaf yn Llanberis.

Diolch Dymuna Ted, John, Jane a theulu'r diweddar Myrddyn Pritchard, 'Orwig View', 1 Ffordd Padarn ddiolch am bob cydymdeimlad a estynnwyd iddynt ym mhob ffordd gan ffrindiau a chymdogion yn eu profedigaeth o golli tad, taid a hen daid annwyl ddydd Gwener, Awst 14, yn 96 mlwydd oed. Diolch yn fawr i'r gofalcwyr cartref am eu gofal tyner ohono ar ei aelwyd dros y blynyddoedd; i bawb yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun am y gofal da a gafodd yno dros y deunaw mis diwethaf; ac i feddygon a staff Meddygfa Llanberis am eu gofal hwythau. Diolch hefyd i'r teulu estynedig am bob ffyddlondeb a charedigrwydd. Diolch i'r Parchg Bryn Williams a Mrs Bethan Holding yr organydd, am eu cymorth yn y gwasanaeth angladd a gynhaliwyd yn Capel Coch ddydd Iau, Awst 20. A diolch arbennig i Gwynfor Jones, E W Pritchard, am ei gefnogaeth ac am drefniadau trylwyr yr angladd. Diolch hefyd am y rhoddion a dderbyniwyd at Ysgol Pendalar, Caernarfon a Thŷ Gobaith.

Y Gymdeithas Undebol:

Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor newydd y Gymdeithas Undebol yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth, Tachwedd 10 yng nghwmni Annette Bryn Parri, Deiniolen. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod hwn, yn cynnwys hen aelodau'r Gymdeithas ac unrhyw sydd am ddod i wrando ar Annette yn sgwrsio ac yn canu amrywiaeth o ganeuon ar y piano. Mae'n sicr o fod yn noson ddifyr a safonol. Dowch draw i fwynhau. Yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas ddiwedd Gorffennaf, diolchwyd i Miss Dilys Mai Roberts a Mrs Anne Parry am eu gwaith fel Ysgrifennydd a Thrysorydd y Gymdeithas am flynyddoedd lawer. Penodwyd Mr Eifion Roberts yn Drysorydd newydd.

Plas Pengwaith Enillydd y Bel Bonws am fis Awst oedd Mr. Emlyn Baylis.

Pen-blwydd Priodas Dymuna Eifion a Gwyneth, Sŵn Y Gwynt, ddiolch i'w cymdogion, ffrindiau a theulu am yr holl ddymuniadau da a'r rhoddion a dderbyniasant ar achlysur eu Pen-blwydd Priodas Aur ar ddechrau Mis Medi.

Diolch Dymuna Mrs Olwen Jones, 7 Rhes Victoria, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd tra'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Broadgreen, Lerpwl, ac ar ôl dod adref.

Diolch O Pentref Castell i Penllyn, o Maes Padarn i Coed Doctor, fe weithiodd pawb hefo'i gilydd i gefnogi gweithgareddau'r Snowdon Rocks, elusen codi arian at gancr, ac Awyr Las, elusen i sicrhau gwell gofal iechyd yng Ngogledd Cymru, ar yr 20fed o Fehefin.

Diolch arbennig i Trefor am fisoedd o drefnu, i Emlyn a'i griw am sicrhau fod y pentref yn edrych yn dda ar y diwrnod, ac i Edwin a Tim Achub Llanberis am eu gofal ar y diwrnod.

Heb y rhain fuasai'r achlysur ddim wedi bod mor llwyddiannus!

Llongyfarchiadau i Stephen a'i holl gefnogwyr am drefnu wythnos o weithgareddau arbennig ar achlysur pen-blwydd Ras Yr Wyddfa yn 40eg Oed.

Côr Meibion Dyffryn Peris Cafodd y Côr, a'u hunawdwyr, ganmoliaeth arbennig gan gynulleidfa lawn yn dilyn eu Cyngerdd yn Eglwys Betws Y Coed ar Nos Sul, Awst y 23ain. Yr unawdwyr ar y noson oedd Dafydd Roberts (Bariton), Elen Roberts (Soprano), Gareth Hughes (Euphonium) a Steven Evans (Piano).

Mae'r Côr, sy'n ymarfer bob nos Lun yn y Mynydd Gwefru Llanberis, yn awyddus i dderbyn aelodau newydd. Os oes diddordeb gennych, cysylltwch â David Price ar 01248 362929.

Cyngerdd Ar Nos Wener, Hydref y 9fed, am 7.30 o'r gloch cynhelir Cyngerdd yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis. Yn dilyn ymweliad Côr Dyffryn Peris, ynghyd â Chôr Dinas Bangor, â Dulyn, Iwerddon, flwyddyn yn ôl, mae Côr o Ddylun yn ymweld â'r ardal yma eleni. Bydd tri chôr yn cymryd rhan yn y Cyngerdd, THE PEOPLE'S COLLEGE CHOIR, Dulyn, CÔR PLANT YSGOL DOLBADARN A CHÔR DYFFRYN PERIS.

Diolch Dymuna Meurig, Gwilym, Iwan, Ann, Iolo a'r teulu oll ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu

profedigaeth o golli gwraig, mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl iawn, sef Mari Elizabeth Evans (Gift Shop, Llanberis a Leeds House, Caernarfon gynt). Diolch am y rhoddion hael iawn er cof amdani. Derbyniwyd £1,800 i'w rannu rhwng Meddygfa Waunfawr a Chymdeithas Cyfeillion Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch hefyd i'r Parchedig Ronald Williams am draddodi'r gwasanaeth a'r Parchedig Gwynfor Williams a Gareth am draddodi'r teyrngedau. Diolch hefyd i Dr Huw Gwilym, Meddygfa Waunfawr, Gofal Bro a Nyrsys Cymunedol Llanberis a fu'n gymorth mawr i ni er mwyn i Mari gael ei dymuniad i aros gartref. Diolch i Gwynfor a Jane o gwmni Ymgymerywyr E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau urddasol a thrylwyr o'r angladd. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Steven Williams, 22 Maes Padarn, ddiolch yn fawr iawn i'w deulu, ffrindiau a chymdogion bro'r Eco am eu caredigrwydd enfawr yn ystod ei ymgyrch i godi arian tuag at ei daith ddiweddar i Batagonia.

Roedd Steven yn cymryd rhan yn y Sioe Gerdd 'Mimosa' cynhyrchiad a oedd wedi ei drefnu ar y cyd rhwng yr Urdd a Chwmni Theatr Clwyd. Roedd y sioe yn adrodd hanes yr ymsefydlwyr gwreiddiol a ymadawodd â Chymru i fynd ar eu mordaith hir a bregus ar y llong Mimosa er mwyn dechrau bywyd a chymuned newydd ym Mhatagonia.

Cafodd y sioe ei pherfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod ac yn Theatr Y Chapter yng Nghaerdydd cyn cychwyn ar y daith drosodd i Batagonia ble gwelwyd perfformiad o'r sioe yn ardaloedd Trelew, Y Gaiman, Porth Madryn, Esquel a Trevelin.

Yn ôl Steven, roedd hyn oll yn brofiad bythgofiadwy ac emosiynol iawn, gyda llawer yn y cynulleidfaoedd yn eu dagrau.

Profedigaeth: Yn dilyn gwaeledd hir a blin, bu farw Mrs Nancy Eva Jones, Y Garnedd, Ffordd yr Orsaf, Llanberis yng Nghartref Nyrsio Cerrig yr Afon, Y Felinheli ar 28ain Awst yn 85 mlwydd oed. Er ei gwendid, roedd yn hynod falch o ddathlu pen blwydd diemwnt ei phriodas â Ralph ar 1af Awst.

Roedd Nancy yn wraig, mam a nain gariadus, a chwaer arbennig i Olwena ac Eira. Treuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn Lerpwl, lle bu'n brifathrawes uchel ei pharch ac yn flaenllaw gyda denu plant ifanc at wyddoniaeth. Bu cerddoriaeth yn agos i'w chalon erioed, a bu'n aelod brwdfrydig o Undeb Gorawl

Cymry Lerpwl am flynyddoedd ac yn gefnogol i fywyd Cymraeg y ddinas. Wedi ymddeol, cartrefodd yn Llanberis a derbyn gwahoddiad i weithredu fel Swyddog Plant Esgobaeth Bangor; a thra yn y swydd cyfrannodd at lyfr hyfforddiant i athrawon Ysgol SuL. Roedd eisoes yn gyd-awdur 'Caneuon Hiracl'. Cefnogodd yn eiddgar y Gymdeithas Athrawon Wedi Ymddeol, a mwynhaodd y gweithgareddau misol a fu'n gymorth i setlo yn ôl yn yr ardal.

Bu ei hangladd ar 7fed Medi yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis ac yna ym mynwent Nant Peris. Arweiniwyd y gwasanaeth dwyieithog gan y Barchg Ddr Carol Roberts, gyda'r Parchg Ganon David Parry, y Parchg Ganon Philip Hughes a'r Parchg Ganon Robert Townsend yn cymryd rhan. Cyfrannodd Gwen, ei hwyres, ddarlenniad ac arweiniwyd yr ail emyn ar y ffidl gan Anna, y wyres arall. Talwyd teyrnged haeddiannol iawn yn Saesneg gan Parchg David Parry ac yn Gymraeg gan y Parchg Philip Hughes. Yr organydd oedd Iwan Wyn Williams.

Dymuna Ralph, Eryl, David, Gwen ac Anna ddatgan diolch diffuant i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Derbyniwyd llw 0 gardiau, llythyron a galwadau ffôn 0 bell ac agos gyda rhoddion hael er cof am Nancy. Bydd y rhain, a werthfawrogwn yn fawr, yn cynorthwyo sefydlu cegin a thoiledau yn Sant Padarn (prosiect agos i galon Nancy).

Diolch arbennig i Gwynfor (Cwmni E W Pritchard) am drefniadau sensitif a thrylwyr. Mae ein diolch hefyd i'r gofalcwyr cartref a fu mor driw i Nancy ac i dim Nyrsio Cymunedol Llanberis am eu gofal diflino hwythau. Diolchwn hefyd i feddygon a staff Meddygfa Llanberis ac i bawb yng Ngherrig yr Afon am eu sylw a'u cefnogaeth ar amser caled.



Cau'r Banc. Dyma aelod o staff HSBC yn cau drws y banc am y tro olaf fore Gwener 21ain o Awst eleni.

Oedfaon Sul Capel Coch ar gyfer mis Hydref

4ydd: 10yb a 5yh: Parch Huw Pritchard

11eg: 10yb Y Gweinidog; 5yh: Oedfa Moli

18fed: 10yb Parti Bythol Wyrdd; 5yh: Oedfa

25ain: 10.30yb: Oedfa Deulu

Parhad LLANBERIS

Ysgol Dolbadarn.



Dyma lun y dosbarth Meithrin newydd ar gyfer eleni- pob lwc i chi i gyd a gobeithio y byddwch yn mwynhau eich cyfnod yn Ysgol Dolbadarn.

Halibalw- Bu criw teledu yma yn ffilmio Blwyddyn 2+3 rhaglen ar gyfer Cyw- edrychwn ymlaen i'w gweld ar y teledu tua'r Nadolig! Hoffwn longyfarch Huw Owen ar ei benodiad fel un o gyflwynwyr y rhaglen 'Cyw'- da iawn ti Huw, yr ydym yn falch iawn o weld dy lwyddiant.

Staff Newydd: Croeso cynnes i Mrs Ceri Millington athrawes Blwyddyn 3 i'r ysgol a Miss Ceri Davies athrawes Blwyddyn 4. Gobeithio y byddwch yn hapus iawn yn yr ysgol.

Brysiwch Wella Mr Jones! :Dymuna holl staff yr ysgol ddymuno y gorau i Mr Gareth Fon Jones yn ystod ei gyfnod i ffwrdd o'r ysgol. Edrychwn ymlaen i'ch croesawu yn ol yn fuan iawn.

Plas Pengwaith.



Bu rhai o'r trigolion yn brysur yn paratoi gwahanol eitemau ar gyfer cystadleuthau celf a choginio Gwyl Ffair Nant. Dyma'r eitemau a enillodd wobrau iddynt.



Ar y Dibyn



Enfys Wyn Griffith o'r Waunfawr.



Gethin Wyn Jones o Ddeiniolen.



Hannah Hughes o Caeathro.

Oes gan drigolion lleol yr addewid i fod yn arweinydd antur?

Bydd tri o drigolion lleol yn cymryd rhan mewn cyfres antur awyr agored newydd ar S4C yr Hydref hwn er mwyn ceisio ennill cyfle unwaith mewn bywyd i newid eu gyrfa yn gyfan gwbl.

Bydd Ar y Dibyn, sy'n dechrau ar 8 Hydref, yn gweld wyth cystadleuydd beiddgar yn cystadlu am swydd fel arweinydd antur mewn canolfan awyr agored yng Nghymru - diwydiant sydd werth dros £400 miliwn i economi Cymru bob blwyddyn.

Tri o'r ymgeiswyr yw Hannah Hughes o Gaeathro, Gethin Wyn Jones o Deiniolen ac Enfys Wyn Griffith o'r Waunfawr.

Mae Hannah yn 24 mlwydd oed ac gweithio mewn Swyddfa Dwristiaeth i Gyngor Gwynedd. Mae ganddi gefndir mewn chwaraeon gan iddi ennill y fedal Efydd mewn Judo yn Ngemau'r Gymanwlad ac mae hi hefyd wedi chwarae rygbi dros Gymru.

25 mlwydd oed yw Gethin ac wedi iddo ddychwelyd adref ar ôl teithio'r byd mae ar hyn o bryd yn gweithio mewn swyddfa bost. Mae'n mwynhau Kayakio ac mae o ar hyn o bryd yn cael gwersi hedfan awyren hefyd.

Mae Enfys Wyn Griffith yn 25 mlwydd oed ac roedd hi'n aelod o'r Air Cadettes am flynyddoedd. Mae hi'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored, ac fel mam ifanc sengl, mae hi eisiau profi i famau ifanc fod unrhyw beth yn bosib.

Yn y rhaglen, bydd rhaid i tri ohonynt, ynghyd â'r ymgeiswyr eraill, profi eu hunain mewn amrywiaeth eang o weithgareddau awyr agored - o hwylio a chanwio i ddringo, beicio mynydd a llawer mwy. Ond mi fydd eu personoliaethau a'u sgiliau arwain hefyd yn hawlio sylw'r beirniaid - yr arweinydd antur Dilwyn Sanderson-Jones a'r

gyflwynwraig ac anturiaethwr, Lowri Morgan.

Mae'r gyfres yn cael ei chynhyrchu gan Cwmni Da o Gaernarfon ac maen nhw wedi cydweithio gydag Urdd Gobaith Cymru a Chyngor Chwaraeon Cymru er mwyn cynnig pecyn deniadol i enillydd Ar y Dibyn.

Byddant yn cael cynnig swydd blwyddyn o hyd fel arweinydd awyr agored yn naill ai Canolfan Plas Menai neu yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn. Yn ystod y flwyddyn mi fydd yr enillydd hefyd yn derbyn hyfforddiant llawn ym mha bynnag feysydd awyr agored maent yn dymuno arbenigo ynddynt.

Yn ogystal mae Cwmni Da wedi gweithio gyda chwmni Charity Challenge er mwyn cynnig taith fythgofiadwy i'r enillydd i begwn mynydd uchaf gogledd Affrica.

Dywedodd Hannah, sy'n mwynhau cadw'n ffit a chodi pwysau: "Dwi yn mwynhau fy swydd ond fysa ennill Ar y Dibyn yn freuddwyd oherwydd mi fyswn i'n gallu neud be dwi'n fwynhau fwy'r drwy dydd, pob dydd."

Mae Gethin hefyd wedi ymgeisio er mwyn gallu bod allan yn yr awyr agored fwy. Meddai: "Dwi isio cystadlu ar Ar y Dibyn am bo fi methu aros mewn swyddfa a sbio ar gyfrifiadur trwy dydd. Mae bywyd rhy fyr a ti angen laff."

"Mi fyswn i wrth fy modd yn cael job fel arweinydd antur ond dwi isio mwynhau'r siwrna' hefyd."

Mae Enfys, ar y llaw arall, eisiau mynd yr holl ffordd er mwyn newid pethau i'w merch: "Dwi isio cystadlu gan bo fi'n fam sengl a dwi'n teimlo mod i isio profi i ni gyd y medra ni neud o. Fysa ennill y swydd yn golygu lot i fi, ac i'n hogan fach i hefyd."

Arddangosfa Bro Amgueddfa ac Oriel Gwynedd

Fel y gwyddoch roedd eleni yn flwyddyn bwysig iawn i Ras yr Wyddfa. Bu Amgueddfa ac Oriel Gwynedd, Bangor yn cyd weithio â Phwyllgor y Ras i greu arddangosfa i ddathlu'r deugain yng Nghanolfan Ymwelwyr y Mynydd Gwefru. Cafwyd cyfraniadau gan lawer iawn o bobl leol a digonedd o hanesion difyr. Cafwyd hanes cwpl sydd yn byw yn y pentref ac sydd wedi ffilmio'r ras o'r ardd gefn ar hyd y blynyddoedd, hanes Gareth Dobson yn torri ei ddant yn fyw ar S4C y flwyddyn gyntaf i'r ras cael ei ddarlledu, a stori Malcolm Jones sydd wedi rhedeg pob ras ers y cychwyn. Heb sôn am yr holl atgofion o redeg Ras y Plant ers talwm a'r tlysau a

enillwyd am wneud hynny.

Bwriad Amgueddfa Gwynedd yw sefydlu 'lloeren' neu Arddangosfa Bro yn y Mynydd Gwefru, grwpiau cymunedol fydd yn curadu'r arddangosfeydd yma ac mi fyddan nhw'n newid pob 6 mis. Sgiledi Rhufeinig (math o 'sosban' o gyfnod y Rhufeiniaid) a gafodd eu darganfod yn Hafod Lydan, Llanberis fydd yn cael eu harddangos yma nesaf a hynny o Ionawr 2016 ymlaen am 6 mis. Os oes gennych ddiddordeb mewn dewis eitemau ar gyfer yr arddangosfa wedi hynny cysylltwch â'r amgueddfa: 01248 353 368 neu amgueddfagwynedd@gwynedd.gov.uk.



Pwyllgor Anabl Merched y Wawr Rhanbarth Arfon.

Yn flynyddol mae Pwyllgor Anabl Rhanbarth Arfon yn cefnogi elusen lleol. Eleni, yn ystod tymor 2014 - 2015, yr elusen a ddewiswyd oedd Cronfa leuencid Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru.

Cynhaliwyd Distawrwydd Noddedig ym mis Mawrth a Ffair Haf ym Mehefin. Casglwyd £2500 i'r Gymdeithas ar gyfer prynu offer technegol arbenigol, megis tabledi, sydd gymaint o gymorth i'r rhai sydd gyda nam ar y golwg yn Arfon.

Un o'r plant fydd yn elwa o'r arian yw Cian Wyn Jones sy'n bedair oed ac o Gaernarfon. Gwelir Cian yn y llun gyda Linda, ei fam, ynghyd a Margaret Parry, Cadeirydd y Pwyllgor Anabl, ac Andrew Hinchcliff, Cadeirydd Pwyllgor y Deillion Gogledd Cymru.

Meddai Margaret "Roeddwn yn hynod falch fod y Pwyllgor wedi dewis cefnogi'r Gymdeithas gan fy mod yn colli fy ngolwg ac wedi derbyn cyngor a chymorth amhrisiadwy gan y Gymdeithas ers 2005".

Mudiad Meithrin yn chwilio am Aelodau i Fwrdd Cyfarwyddwyr Newydd

Mae Mudiad Meithrin, sef mudiad gwirfoddol sy'n arbenigo ym maes gofal ac addysg blynnyddoedd cynnar gyda'r nod o roi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynnyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg, yn chwilio am 5 unigolyn i ymuno gyda'r Bwrdd Cyfarwyddwyr gwirfoddol am dymor o 5 mlynedd.

Eglurodd y Prif Weithredwr, Dr Gwenllian Lansdown Davies:

“Wedi adolygiad mewnol cynhwysfawr, cytunwyd cael un Bwrdd Cyfarwyddwyr cenedlaethol i weithredu fel cydwybod i'r Mudiad ac i gynnig arweiniad strategol i'n gwaith. Yn barod, mae gennym 11 o unigolion sy'n aelodau o'r Bwrdd. Canlyniad hynny yw'n bod yn chwilio am 5 unigolyn i ymuno â'r Bwrdd. Gall yr unigolion hyn fod o gefndiroedd amrywiol gyda gwahanol arbenigeddau a thalentau. Yr hyn sy'n bwysig yw eu bod yn awyddus i wneud gwahaniaeth dros blant bach Cymru a'u bod yn cefnogi prif amcanion Mudiad Meithrin.”

Mae'r holl fanylion perthnasol i'w canfod yn adran 'swyddi' gwefan y Mudiad (www.meithrin.cymru) ac mae'r dyddiad cau ar ddydd Gwener, y 9fed o Hydref. Gobeithir gwneud cyhoeddiad am aelodaeth y Bwrdd yn ei gyfanrwydd yn y Cyfarfod Blynnyddol Cyffredinol ar Hydref 16 yng Nghanolfan y Morlan yn Aberystwyth.


Am ragor o wybodaeth cysyllter â:

Iola Jones, Pennaeth Tîm Cyfathrebu a Phartneriaethau, neu Arawn Glyn, Swyddog Marchnata

Ffôn: 01970 639639

Symudol: 07841 452 607

I'r Gad, Fechgyn Gwalia!



Drama newydd gan Theatr Bara Caws

Amgueddfa Lechi Cymru Llanberis 3 a 4 a 10 a 11 Hydref 2015

Bydd cyflwyniad newydd sbon gan Theatr Bara Caws yn cael ei pherfformio yn Amgueddfa Lechi Cymru ar ddechrau mis Hydref.

Comisiynwyd 'I'r Gad, Fechgyn Gwalia!' gan yr amgueddfa i gyd-fynd ag arddangosfa newydd 'Tros Ryddid ac Ymerodraeth' sydd i'w gweld ar y safle. Mae'r arddangosfa yn edrych ar yr ymateb oddi mewn i gymunedau chwareli llechi i ymgyrch recriwtio y Rhyfel Byd Cyntaf cyn gorfodaeth filwrol yn 1916.

Y gred gyffredin yw fod cymunedau a diwydiannau ar draws gwlad wedi ymateb yn frwdfrydig i'r ymgyrch recriwtio, ond, a oedd hyn yn wir ym mro'r chwareli?

Er enghraifft, ar ddiwedd cyfarfod recriwtio ym Methesda ar 28 Awst 1914 dim ond tua deuddeg o ddynion ymunodd â'r fyddin, mewn ardal oedd â phoblogaeth o dros 11,000. Tebyg oedd yr ymateb yn Llanberis, gyda dim ond un dyn yn gwirfoddoli ar ddiwedd cyfarfod ym mis Medi 1914, er bod y neuadd yn orlawn.

Er mwyn annog pobol i ymuno â'r ymgyrch, defnyddiwyd nifer o ddulliau recriwtio gan gynnwys swyddogion milwrol oedd yn gallu siarad Cymraeg, poster recriwtio Cymraeg a hysbysebion mewn papurau newydd lleol. Cynhaliwyd cyfarfodydd recriwtio ar hyd a lled Cymru – mewn neuaddau, capeli a ffeiriau a byddai'r gynulleidfa yn cael ei hannerch gan arweinyddion y gymuned – gweinidogion, gwŷr busnes, prifathrawon, a chynghorwyr.

Yn y Chwareli, addawodd rhai perchnogion fel W.D. Hobson, Rheolwr Chwarel y Penrhyn ym Methesda, gadw swyddi chwarelwyr a ymunai â'r fyddin yn agored iddynt ar ddiwedd y rhyfel a chynigiodd Chwarel Maenofferen ym Mlaenau Ffestiniog 5 swllt yr wythnos i'r rhai oedd am ymuno. Trefnwyd gorymdeithiau milwrol, gyda'r band pres lleol yn arwain mintai o filwyr trwy drefi a phentrefi – ac yn ystod Ionawr a Chwefror 1915 ymwelodd dros 250 o filwyr â Blaenau Ffestiniog, Penygroes, Llanrug, Llanberis, Deiniolen a Bethesda fel rhan o'r ymgyrch recriwtio.

Daw'r hanes yma yn fyw yn y ddrama drwy lygaid dau frawd sy'n gweithio yn y chwarel, gan edrych ar y ffordd y mae'r tactegau recriwtio yn effeithio ac yn dylanwadu arnynt. Esboniad Siwan Llynor - Awdur a Chyfarwyddwraig I'r Gad, Fechgyn Gwalia! ar ran Theatr Bara Caws, ymhellach:

“Bydd y cyflwyniad yn cynnig profiad theatrig cyffrous er mwyn adlewyrchu ymgyrch a thactegau recriwtio pwerus y cyfnod. Profiad fydd yn pigo'r cydwybod, yn cwestiynu moesoldeb dyletswydd, crefydd a diwylliant.

Bwriad y cynhyrchiad yw creu profiad real ac amlsynhwyradd fydd yn denu'r gynulleidfa i ganol y digwyddiadau.”

Mae'r cast yn cynnwys Dyfan Roberts, Owen Arwyn, Manon Wilkinson a Gwion Aled.

Cynhelir y perfformiadau am 10.30am, 1pm a 3.30 ar 3, 4, 10 a 11 Hydref. Mae'r perfformiadau i gyd yn yr iaith Gymraeg, ond mae synopsis Saesneg ar gael.

Mae tocynnau yn rhad ac am ddim i'r perfformiadau ond oherwydd bod angen cyfyngu niferoedd, dylid bwcio tocynnau drwy gysylltu â Mari Emlyn ar: 01286 675869 neu 07880 031302 neu drwy gysylltu â'r Amgueddfa ar 02920 573702 neu llechi@amgueddfacymru.ac.uk

Mae'r perfformiadau hefyd ar gael i Ysgolion rhwng 30 Medi a 2 Hydref a 5–9 Hydref 2015. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'r amgueddfa ar 02920 573702

Ariennir y ddrama gan Lywodraeth Cymru drwy brosiect Cymru'n Cofio 1914-1918.

GERAINT OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475



Croeso blwyddyn 7!

Bellach mae 111 o ddisgyblion newydd blwyddyn 7 wedi setlo'n dda i fywyd a threfn Ysgol Brynrefail. Yr oedd nifer o'r disgyblion yma yn naturiol yn teimlo'n nerfus ar eu bore cyntaf yn yr ysgol ond erbyn hyn maent wedi setlo'n dda ac yn hapus yn eu hysgol newydd. O dipyn i beth maent wedi dod i ddeall eu ffordd o gwmpas yr ysgol yn dda ac erbyn

hyn yn gwybod ym mha ddosbarthiadau mae athrawon eu gwahanol bynciau yn dysgu.

Rydym ninnau fel staff yr ysgol a gweddill disgyblion Ysgol Brynrefail yn dechrau dod i'w hadnabod hefyd. Croeso i Ysgol Brynrefail blwyddyn 7!

Disgyblion Brynrefail i ymddangos ar y rhaglen 'Coginio'.



Ddechrau'r tymor daeth y gyflwynwraig deledu boblogaidd Lois Cernyw i'r ysgol i sôn am gyfres gyffrous newydd fydd ar ein sgriniau yn y dyfodol agos. Bydd "Coginio" yn cael ei ddarlledu yn nhymor yr Hydref fel rhan o raglenni "Stwnsh" gyda chyfle i unigolion gydweithio gyda Beca Becws, a chwblhau sialensau coginio amrywiol. Bydd y rhai hynny sy'n mynd yn eu blaenau i'r rowndiau terfynol yn gorfod cyflawni sialensau tebyg i Masterchef a bydd gwobr sylweddol i'r enillydd o offer coginio gwerth £400! Rhai o chefs y dyfodol gyda Lois.



Bedwyr Jones, Cai Llwyd Jones, Owain Llwyd a Huw Gwynn Tim Tennis Bl 8

1af Arfon; 1af Gogledd Gorllewin Cymru; 2ail Ffeinal Gogledd Cymru (drwch blewyn o guro!!) 10/9/15. Diolch yn fawr i Gareth Jones (tad Cai Llwyd) am hyfforddi'r tîm.



Noson Gwobrwyo Lefel A 2015



Gethin Hughes Jones
1af yn Athletau Eryri; 2ail ym
Mhencampwriaeth Athletau
Cymru Pwysau (shot put)
Bechgyn Canol.



Tim Athletau Bl 7 ac 8
Pencampwyr Eryri; Ffeinal Cymru 6ed.



Llongyfarchiadau i Elin Dafydd am basio dy Gradd 1 Theori Cerdd. Diolch i Dylan Williams am ei hyfforddi. Llongyfarchiadau iddi hefyd am basio ei Gradd 3 ymarferol gyda Eb Tenor Horn. Diolch i Gavin Saynor am ei hyfforddi.

Diolch Fe hoffai Hilda Parry, Porth Gogledd, Deiniolen, ddiolch o galon i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion pell ac agos am eu caredigrwydd yn ystod ei chyfnod o salwch yn ddiweddar. Diolch bawb

Diolch Dymuna Osian Trefor, 1 Bron Helen, Clwt y Bont, ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r cyfarchion y mae wedi ei dderbyn ar ôl ei lwyddiant yn ddiweddar yn ennill y wobwr gyntaf am yr Unawd Alaw Werin o dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau, diolch o galon i bawb.

Diolch Dymuna Maureen a Sheila a'r teulu, 23 Stryd Newydd, ddiolch o galon i'w ffrindiau, cymdogion a theulu am yr arian cardiau a blodau a

galwadau ffôn, am bob arwydd o gydymdeimlad o golli eu chwaer, sef Pat Wallace, yn 73 mlwydd oed. Roedd gynt yn byw yn Rhydfadog, Deiniolen.

Cofion Canrif Ar Awst 29ain, roedd Mrs Amy Edwards yn 100 oed. Magwyd hi yn Glanffrwd Deiniolen yn ferch i'r Parch. R.O. Williams, gweinidog Cefnywaun a'i wraig, Mary. Priododd y Parch Edryd Edwards a fu'n gwasanaethu yn Eglwysbach ac ym Morfa Nefyn. Bellach, mae hi'n byw yng Nghartref Gwynfa Caernarfon, pleser oedd myndâ chyfarchion eglwys Cefnywaun iddi ac mae'n anfon ei chofion cynnes at bawb yn Neiniolen.

Pen-blwydd **Hapus** Dymuniadau gorau i Catrin Llewelyn, 3 Hafod, ar achlysur ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Mynwent Eglwys Crist Diolch i garedigion sydd yn cyfrannu yn gyson er mwyn inni alluogi torri gwair y Fynwent a'i chadw mewn trefn. Mawr yw ein diolch i Mr Berwyn Jones am ei waith caled yn gofalu bod y gwair yn cael ei dorri. Derbyniwyd rhoddion gan:

Mrs Davinia Williams, 2 Rhydfadog: £20; Mrs Gracie Tate, 1 Bro Deiniol: £10; Mrs Dilys Williams, 4 Llys y Gwynt, Penisarwaun: £20; Mrs Alwena Hughes Jones, Llanrug: £20; Mr Derek Morris, 7 Ffordd Deiniol: £10; Mr Gerallt Morris, 7 Ffordd Deiniol: £10; Mrs Rowena Owen, 7 Gerddi Menai, Caernarfon: £50; Mrs



Band Deiniolen.

Llongyfarchiadau i'r Band arddodyn drydydd mewn cystadleuaeth genedlaethol yn Cheltenham yn ystod y mis diwethaf, a hynny gyda nifer dda o ieuenctid yn eu cynrychioli. Mae'r llun yn dangos Lois, yr arweinydd, a Meirion yr ysgrifennydd yn arddangos y tlws a enillwyd.

Kathleen Davies, 9 Hafod Oleu: £10; Mr Barry Davies, Craigwell, Llanberis: £10; Mrs A.J. Owen, 48 Rhydfadog: £10; Mrs Eurwen Roberts, 47 Rhydfadog: £20; Mr a Mrs Ken Gould, Birmingham: £10; Osian a Llio Tomos, Llangefni: £20; Mrs Elaine Bowser, Llundain: £50; Mrs Gwenda Sayer, Caernarfon: £20; Bingo Elidir: £100.

Byddwn yn falch o roddion er mwyn cynnal a chadw'r Fynwent. Bydd Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, neu Mrs Gwen

Griffith, Fron, yn hynod falch o dderbyn eich rhoddion neu unrhyw aelod o'r Eglwys.

Diolch.

Dymuna Band Deiniolen ddiolch yn fawr iawn am yr holl roddion a dderbyniwyd yn dilyn eu hapel yn rhifynnau diwethaf yr "Eco". Gwerthfawrogir haelioni ffyddloniaid a chefnogwyr y Band, a chasglwyd digon o arian i dalu costau teithio'r Band i'r gystadleuaeth ddiweddar yn Cheltenham.

CEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros 25 Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

Ebeneser a Chefnywaun Gwasanaethau mis Hydref:

Sul 4ydd: Gweinidog (bore)
Sul 11eg: Cyfarfod diolchgarwch (£5.00)
Sul 18fed: Gweinidog (10 a 5.00)
Sul 25ain: Parch W.R. Williams (£500)

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225




Parhad DEINIOLLEN

Rhaglenni ar gael yn y Llyfrgell, caffi EB, y siop leol neu drwy ffônio'r Ysgrifennydd: 01286 870898 ar gyfer:

Eisteddfod Gadeiriol Deiniolen a'r cylch

sy'n cael ei chynnal yn
Festri Capel Ebeneser, Deiniolen
am
11.30 y bore a 6.30 yr hwyr, Dydd Sadwrn, Hydref 24^{ain}, 2015



BEIRNIAID

Cerdd a Cherdd Dant:
Deilwen Hughes, a Sion Elwyn, Bethel

Llefaru:
Eifion Harding, Penisarwaun

Mynediad: P'nawn Sadwrn: Plant 50c; Oedolion £2.00
Nos Sadwrn: £4.00

Ewch ati i gystadlu er mwyn inni gael Eisteddfod gwerth chweil, a sylwch ar y dyddiad cau ar gyfer y cystadlaethau ysgrifenedig: 2 Hydref 2015 a dyddiad beirniadu'r Celf a Chrefft – nos Wener, 16 Hydref.

y CYNLLUN CERDDE A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT

menter fachwen

RHIF ELUSEN / CHARITY NUMBER: 701163

www.menterfachwen.org.uk

CYFENTER CALYBIEG

MENTER Môn

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

ERDF

Uwchradd Cymru Welsh Government

Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

TEITHIAU MIS HYDREF 2015

GWENER 2 HYDREF 2.00 yp

LLANBERIS: GILFACH DDU (2½ milltir)

CYCHWYN: CANOLFAN CERDDE A DARGANFOD, Tŷ CAXTON, STRYD FAWR, LLANBERIS

EICH CYFLE I DDOD AR Y DAITH BYDDWN YN GWNEUD I'R YSGOLION (OND HEB Y PLANT!!!!). EITHA HAWDD.

IAU 15 HYDREF 10.00 yb

RHIWLAS A CASTELL (2½ milltir)

CYCHWYN: CANOLFAN CYMUNEDOL RHIWLAS

BETH DDIGWYDDODD I 'PLAS PENTIR' ? CYMEDROL GYDA UN ALLT. ANGEN SGIDIAU CERDDE.

GWENER 23 HYDREF 10.00 yb

GLASINFRYN: ADEILADAU, TAFARN A TIM PEL DROED COLL (2 milltir)

CYCHWYN: BRO INFRYN, GLASINFRYN

CYMEDROL GYDA UN ALLT. ANGEN SGIDIAU CERDDE.

LLUN 26 HYDREF 1.00 yp

LLANRUG CANOLOESOL (3½ milltir)

CYCHWYN: CAE CHWARAE GLANMOELYN

CYMEDROL GYDA LLWYBRAU. SGIDIAU CERDDE.



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

CYNGERDD DATHLU 180 oed BAND DEINIOLLEN. Nos Sadwrn, 17 Hydref am 7.00pm

NEUADD OGWEN, BETHESDA.

ARTISTIAID

Tair Adran Band Deiniolen

Côr Ieuenctid Môn

Unawdydd: Meinir Wyn Roberts

(Enillydd yn y Genedlaethol ac yn Llangollen eleni)

Arweinydd: Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa)

Pris Mynediad drwy docyn yn unig:

Oedolion £10 Plant £5

Elw'r noson at Gronfa'r Band.

Tocynnau ar gael gan Meirion Jones 01286 870452

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

Yr hen ysgol ar ei newydd wedd.



Mae menter newydd cwpwl ifanc wedi profi'n llwyddiant dros y ddeufis diwethaf. Prynwyd adeilad hen ysgol Dinorwig fis Hydref diwethaf, ac o fewn llai na blwyddyn roedd wedi ail-agor fel caffi cartrefol. Cadwyd rhai o nodweddion yr hen ysgol yn y cynllun newydd, gyda'r ystafell fwyta wedi ei rhannu i fyrdau a chadeiriau yn un rhan, ond cadeiriau moethus a byrddau coffi yn y rhan arall. Mae'r lle tân gwreiddiol yn dal yno.

Ni fu seremoni agoriadol swyddogol, dim ond agor y drysau ddechrau Awst eleni, a buan y daeth yn gyrchfan boblogaidd ar gyfer paned a chacen neu bryd bwyd mwy sylweddol i gerddwyr, beicwyr a thrigolion lleol.

Magwyd Simon Rothwell yn Y Felinheli, a daw ei gymar Sonja Weissenberger o Berlin. Cyfarfu'r ddau tra'n teithio yng Nghanada, ac y mae Sonja wedi gwirioni ar yr ardal.

Ar hyn o bryd mae'r caffi ar agor rhwng unarddeg y bore a phedwar y pñawn, ond mae caniatad wedi ei dderbyn i ymestyn yr oriau, a bydd hynny'n digwydd dros y misoedd nesaf. Mae

hefyd yn bosib llogi'r ystafell fwyta ar gyfer partion preifat o'r tu allan i oriau agor. Mae rhai eisoes wedi manteisio ar y trefniant hwn. Ond mae hefyd yn bosib gofyn am eu gwasanaeth i baratoi prydau ar gyfer partion oddi allan.

Mae rhan arall o'r adeilad wedi ei addasu'n ystafell aros gyda 12 gwely, a bydd ar agor o fis Hydref ymlaen ar gyfer grwpau sydd angen treulio ychydig ddyddiau yn yr ardal. Bydd yr ystafelloedd o dan y caffi yn cael eu hadnewyddu a'u haddasu dros fisoedd y gaeaf, gyda'r gobaith o baratoi llefydd aros i 15 arall erbyn y gwanwyn nesaf.

Ar hyn o bryd mae'r fenter yn cyflogi pedwar o bobl leol, ond rhagwelir y bydd mwy o waith yn cael ei greu pan fydd yr oriau agor yn cael eu hymestyn a phan fydd yr ystafelloedd aros ar agor.

Efallai nad yw'r enw newydd – Lodge Dinorwig – at ddant pawb, ond mae'r bwyd yn sicr yn denu cwsmeriaid dro ar ôl tro. Am fwy o wybodaeth cysylltwch efo Sonja ar 07593 818239 neu info@lodge-dinorwig.co.uk

Ymdrech Flynyddol Malcolm.




Unwaith eto eleni bu Malcolm Pitts o Lanrug yn codi arian er cof am ei wraig Yvonne a fu farw o gancr naw mlynedd yn ol. Mae'r ymdrech hon wedi dod yn rhan o galendr blynyddol Malcolm bellach, a'r un yw'r drefn ganddo, sef nofio a beicio nodedig. Mae'r arian yn cael ei rannu rhwng Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd a Chartref Preswyl Gwynfa, Bontnewydd, sy'n gofalu am bobl yn dioddef dementia. Mae'r ddau sefydliad yn agos iawn at galon Malcolm.



Cychwynnodd yr ymgyrch eleni ym Mhwl Nofio Plas Menai. Y bwriad oedd nofio naw milltir mewn chwe sesiwn o filltir a hanner yr un, sef 900 hyd o'r pwll. Yna, gyda'i ffrind Darren Brame, beiciodd Malcolm o Blas Menai i Landudno; cylchu'r Gogarth a dychwelyd – taith o 45 milltir.

Llwyddwyd i gasglu £1500, a chyflwynwyd £1000 i Ward Alaw a £500 i Gartref Dwynfa. Dymuna Malcolm ddiolch i bawb a'i cefnogodd yn yr ymgyrch eto eleni, ac yn arbennig i'r rhai fu'n ei noddi.

Llais i Ddyfodol yr Wyddfa



Wrth i'r nifer o ymwelwyr i ddalgylch Eco'r Wyddfa leihau yn ystod y misoedd nesaf, cynyddu fydd y gwaith o warchod mynydd mwyaf eiconig Cymru. Rhwng rŵan a'r Nadolig, y bwriad yw rhoi cyfle i drigolion a busnesau lleol fynegi barn a rhoi ystyriaeth deg i gadwraeth ar yr Wyddfa, mynediad ar yr Wyddfa, ffyniant yr economi leol, a sicrhau ar yr un pryd fod ymweld a cherdded ar yr Wyddfa yn darparu profiad o'r radd flaenaf i ymwelwyr.

Yn hyn o beth, mae angen cymorth darllenwyr Eco'r Wyddfa, boed yn drigolion neu'n berchnogion busnes sy'n byw neu'n gweithio yn yr ardal. Hoffai Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri glywed eich barn ar y ffordd orau i edrych ar ôl y mynydd.

Helen Pye, Uwch Warden Gogledd Eryri sy'n esbonio ymhellach.

“Mae'r Wyddfa yn fynydd sydd â lle arbennig yn ein calonnau ni i gyd, a'r her o'n blaenau ni yw sicrhau fod pawb yn cael y budd gorau ohono, tra'n gwarchod a gwella'r mynydd ar gyfer y genhedlaeth nesaf. Felly, i'n helpu ni i wneud hyn, rydan ni am sefydlu Fforwm Yr Wyddfa. Bydd hwn yn fforwm agored i bob defnyddiwr, sy'n cynnwys perchnogion tir a busnesau lleol. Ei brif nod fydd rhoi cyfle i bobl leisio'u barn a'u syniadau am ddyfodol y mynydd a'i brif ffocws yn y lle cyntaf fydd trafod materion ac awgrymu atebion sy'n ymwneud â'r Wyddfa. Bydd ffrwyth y trafodaethau yma wedyn yn cael eu bwydo i gynllun rheoli newydd ar gyfer y mynydd – cynllun rheoli fydd yn ganllaw ar gyfer cynllunio a monitro sut mae'r Wyddfa yn cael ei reoli yn y dyfodol o safbwynt gofalu am lwybrau, cadwraeth a thwristiaeth.

Ond mae angen grŵp i drefnu'r Fforwm ac i weithredu a monitro cynllun gwaith penodol, ac i'r pwrpas hwn sefydlwyd Partneriaeth yr Wyddfa. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r prif gyrff sydd â diddordeb uniongyrchol yn y mynydd, er enghraifft Cymdeithas Eryri a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngorau Gwynedd a Chonwy, cwmni Rheilffordd yr Wyddfa, undebau ffermwyr a'r tîm achub lleol. Ein gobaith yn y pen draw ydy datblygu ffordd o reoli mynydd fydd yn cynnwys pawb, ac a fydd wedi derbyn sêl bendith pawb.”

Mae nifer o sesiynau galw i mewn wedi eu trefnu i wrando ar farn pobl, sef

- Dydd Llun, 5 Hydref 2 – 7 yh
Canolfan Groeso Hebog, Beddgelert
- Dydd Llun 12 Hydref, 2 – 7 yh,
Tafarn y Snowdonia Parc, Waunfawr
- Dydd Mercher 14 Hydref 2 – 7,
Mynydd Gwefru, Llanberis

Yna, ar y 9fed o Dachwedd yng Ngwesty'r Royal Victoria, Llanberis cynhelir cynhadledd arbennig fydd yn trafod ac yn pwysu a mesur y sylwadau, awgrymiadau a'r sylwadau a roddwyd yn y sesiynau galw i mewn, ynghyd â chynnal trafodaethau pellach ar y ffordd orau i reoli'r mynydd yn y dyfodol. Am fwy o fanylion, ewch i'n gwefan, www.partneriaethyrwyddfa.co.uk neu cysylltwch â: Helen Pye, 07766 255 505 / 01766 772 232 neu Helen.pye@eryri-npa.gov.uk.

Y Frân Goesgoch

neu yn ôl Y Prifardd Moses Glyn Jones – Y Sipsi Geltaidd

O bob man yn y byd, gorllewin Iwerddon yw fy hoff fan am wyliau – yr ‘an Gaeltacht,’ y rhan sydd o hyd yn dal gafael yn eu hen iaith.

Nid af i benrhyn ań Deingan (Dingle) heb fynd i olwg ynysoedd y Blasket enwog lle bu llu o'i gwerin yn llenorion unigryw – enwau megis Paeg Sayer, Tomas O’Crhoan a Maurice O’Sullivan.

Rhyfeddaf at y creigiau a’r clogwyni. Rhyfeddaf ar adar y glannau a’r clogwyni... ac os byddaf lwcus, fel ‘leni, croesi o gei Dunquin i’r Ynysoedd a throedio ei “sancteiddrwydd”. Cefais brofiad a erys byth eleni – wrth gerdded/dringo’r allt o’r cei i’r maes parcio wedi treulio pnawn o gwmpas yr hen gynefin.

‘Dyw Allt Moses ar lethrau’r Wyddfa’n ddim
o’i chymharu â’r un o gei Dunquin
‘r ‘an Gaeltacht’! Ffuriau’r creu’n llawn adar chwim
a’u cri’n uwch na chlec y don – profiad prin!

Yma ac acw – daw, wrth aros tro,
barchedig ofn, gweld o glogwyni’r hafn,
gwylain, morfrain ac adar drycin bro
yn herio ffrwydro’r aig – heb falio dafn!
Draw dros y swnt mae yr ‘an Blascoed Mhor,
cynefin gwerin goll o feirdd hen foes
au ‘Henlli’ – a’r Iwerydd gwyllt eu stôr,
meistri’r ‘curragh’ ar hynt mewn cerrynt croes...
Daeth dwy fran goesgoch o’r holllt ias-hyd-fêr,
dwy Sipsi Geltaidd – fel rhai bwlch Llanbêr!!’

curragh – cwch unigryw yr ynyswyr a wnaed o grwyn ar yr un
egwyddor â’r cwragl – ond mwy o ganw!

Norman Closs

Parc Padarn Llanberis yn sicrhau Baner Werdd

Mae Parc Padarn yn Llanberis sy’n cael ei redeg gan Gyngor Gwynedd wedi sicrhau’r baner werdd ar gyfer parciau cyhoeddus. Wrth ennill gwobr fel hon, mae’n cydnabod fod y parciau yn llefydd croesawgar, glân a diogel i ymweld â nhw.


Mae’r Faner Werdd yn rhoi cydnabyddiaeth a gwobrau i barciau a mannau gwyrdd gorau’r wlad ac yn hybu gwelliant yn ansawdd mannau gwyrdd. Mae Parc Padarn o safon genedlaethol ar gyfer Parciau Gwledig a Mannau Gwyrdd o safon uchel.

Dywedodd y Cynghorydd, Mandy Williams-Davies sydd â chyfrifoldeb am barciau gwledig Cyngor Gwynedd: “Rydym wrth ein bodd fod y parc wedi ennill cydnabyddiaeth y faner werdd. Mae’r wobr genedlaethol hon yn profi y gall Gwynedd ymfalchio ym Mharc Padarn sy’n cynnig profiad unigryw i drigolion Gwynedd ac ymwelwyr.

“Mae’r ffaith fod y parc wedi derbyn y wobr unwaith eto yn cadarnhau fod Parc Padarn yn cynnig croeso cynnes ac yn barc sydd yn cael eu reoli’n dda er budd y gymuned leol.

“Mae sicrhau’r statws hwn yn gydnabyddiaeth o ymroddiad a gwaith caled staff y parc. Mae’n arwydd amlwg fod y Parc yn cynnig profiad o’r radd flaenaf.”

I sicrhau statws Gwobr Baner Werdd, mae’n rhaid i ymgeiswyr sicrhau sgoriau uchel ar amrediad o feysydd amrywiol. Mae safleoedd yn cael eu beirniadu yn flynyddol gan rwydwaith o dros 600 o unigolion proffesiynol, gyda’r safleoedd buddugol yn cael eu gwobrwyo gyda Baner Werdd fel er mwyn amlinellu eu statws.



Plant Ysgol Llanrug yn cefnogi ymgyrch taclo problemau baw cŵn



Jonathan Neale o Gyngor Gwynedd a Chlerc Cyngor Cymuned Llanrug, Meirion Jones gyda Mali Brookes, Catrin Williams ac Oliver Roberts o Ysgol Llanrug

Daeth Cyngor Cymuned Llanrug a disgyblion o ysgol gynradd y pentref ynghyd i gydweithio gyda menter Trefi Taclus Cyngor Gwynedd yn ddiweddar mewn ymgyrch i amlygu'r broblem baw cŵn yn y pentref.

Roedd y cyngor cymuned wedi derbyn nifer fawr o gwynion am y broblem gan breswylwyr y pentref, felly penderfynwyd cysylltu â phlant Ysgol Gynradd Llanrug gyda chystadleuaeth i greu posteri. Yn dilyn y gystadleuaeth aethant at Jonathan Neale, Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd, gyda'r lluniau buddugol ac mi drefnodd ef eu trosglwyddo ar gefn galed i'w gosod o amgylch y pentref.

Meddai Jonathan Neale: "Mae Llanrug yn esiampl dda o gymunedau trwy Wynedd sydd â phroblemau baw cŵn mewn mannau cyhoeddus. Yn fwy aml na pheidio, plant sydd yn dioddef fwyaf o effaith y baw hwn ar diroedd hamdden y gymuned. Felly, be well nag ymateb creadigol y plant i'r broblem? Mae'r lluniau yn cyfleu neges bwyrus i'r lleiafrif o berchnogion cŵn sy'n anwybyddu'r gyfraith."

Dywedodd Clerc y Cyngor Cymuned, Meirion Jones: "Mae'n dda iawn bod plant Ysgol Gynradd Llanrug wedi chwarae eu rhan i fynd i'r afael â'r broblem baw cŵn trwy greu posteri lliwgar. Mae'r arwyddion rŵan i'w gweld o gwmpas y pentref ac yn edrych yn hynod effeithiol. Does yna ddim esgus i'r rhai sydd yn troi llygad dall ac yn caniatáu i'w cŵn faeddu mewn mannau cyhoeddus. Mae'n amser iddynt fagio a binio'r baw ci. Diolch i Drefi Taclus am ein helpu gyda'r ymgyrch hon."

Ychwanegodd Y Cyngorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer yr Amgylchedd: "Mae'r prosiect Trefi Taclus rŵan yn ei wythfed flwyddyn ac wedi cael llwyddiant mawr wrth hybu taclusrwydd a glendid yn ein cymunedau. Mae'r ymgyrch lliwgar baw cŵn yn un o elfennau pwysicaf Trefi

Taclus yng Ngwynedd ac mae menter Ysgol Llanrug yn un o 32 o ysgolion sydd wedi elwa o'r ymgyrch hwn. Llongyfarchiadau i'r plant gyda'u hymgyrch haeddiannol."

Baw Ci a Toxocariasis

Un o'r rhesymau pwysicaf pam dylai perchnogion atal eu cŵn rhag baeddu mewn mannau cyhoeddus ydy oherwydd gall y parasitiaid yn y baw fod yn hynod beryglus i bobl, yn enwedig plant. Mae Toxocariasis yn afiechyd a achosir pan mae wyau mwydyn toxocara yn cael eu pasio o gwn i bobl drwy faw ci neu bridd wedi'u heintio gall arwain at salwch a hyd yn oed dallineb. Mae'n drosedd i beidio â chlirio ar ôl i gi o dan eich rheolaeth faeddu mewn unrhyw le cyhoeddus. Mae troseddwyd yn agored i gael cosb benodol o £100 gan Wardeiniaid Gorfodaeth Stryd Cyngor Gwynedd a Staff Parciau Morwrol. Gallai methiant i dalu'r gosb arwain at achos llys a dirwy o hyd at £1,000.

Beth allwch chi ei wneud? Os ydych chi'n berchennog ci, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n cario digon o fagiau baw cŵn gyda chi pan fyddwch chi'n mynd â'ch ci am dro. Gellir rhoi baw cŵn wedi ei lapio mewn unrhyw fin cyhoeddus neu ewch â'r pecyn adref a'i waredu'n gyfrifol. I ofyn am becyn o fagiau baw cŵn, cysylltwch â Swyddog Trefi Taclus Cyngor Gwynedd 01766 771000 neu e-bostiwch trefitaclus@gwynedd.gov.uk

Taclo'r Tacla

Gall y cyhoedd hefyd helpu trwy adrodd ar rheini sy'n gyfrifol i Dim Gorfodi Strydoedd Cyngor Gwynedd yn gyfrinachol drwy ffonio 01766 771000, neu drwy fynd i wefan Cyngor Gwynedd i Adrodd Problem

Mae menter Trefi Taclus Gwynedd yn cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru.

Ysgol Gynradd

Croeso cynnes i ddisgyblion newydd ysgol cynradd Llanrug. Eleni rydym wedi croesawu 34 o blant newydd i'r dosbarth meithrin a 45 yn llawn amser yn y dosbarth derbyn ac mae pawb i weld yn setlo'n dda iawn.

Croeso hefyd i Miss Sophie Roberts. Bydd Miss Roberts yn gweithio fel cymhorthydd ym mlynnyddoedd 3 a 4 a gobeithiwn y bydd yn hapus iawn acw. Croeso nôl hefyd i Miss Catrin Jones sy'n dychwelyd i'r ysgol ar ôl cyfnod mamolaeth.

Cafodd disgyblion blwyddyn 6 ddechrau pleserus i'r flwyddyn addysgol newydd pan aethant ar ymweliad preswyl â Glan Llyn i fwynhau gweithgareddau awyr agored. Rhyd-ddu fu atynfa blwyddyn 5 a chawsant hwythau amser da yn cerdded ar hyd llwybrau'r ardal yno.

Cafodd holl ddisgyblion yr ysgol fwynhau'r sioe 'Paid cyffwrdd dweud'. Dechrau prysur i flwyddyn newydd.

Noson o flasau Gwin

Noson hwyliog yng nghwmni y Parch Marcus Robinson yn Neuadd Bethel nos Wener, Tachwedd 13eg 2015, am 7 o'r gloch Dowch i ymuno â ni am noson o hwyl. Mae'r elw yn mynd at Grŵp Apêl Uned Cancr a Haematoleg Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd Tocyn yn £10. Am docyn ffoniwch Kathryn Jones ar 01248 670501

Diolch Dymuna Meurig, Gwilym, Iwan, Ann, Iolo a'r teuluollddiolchynfawriawnam bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, mam yng nghyfraith a nain annwyl iawn, sef Mari Elizabeth Evans (Gift Shop, Llanberis a Leeds House, Caernarfon gynt). Diolch am y rhoddion hael iawn er cof amdani. Derbyniwyd £1,800 i'w rannu rhwng Meddygfa Waunfawr a Chymdeithas Cyfeillion Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch hefyd i'r Parchedig Ronald Williams am draddodi'r gwasanaeth a'r Parchedig Gwynfor Williams a Gareth am draddodi'r teyrngedau. Diolch hefyd i Dr Huw Gwilym, Meddygfa Waunfawr, Gofal Bro a Nyrsys Cymunedol Llanberis a fu'n

gymorth mawr i ni er mwyn i Mari gael ei dymuniad i aros gartref. Diolch i Gwynfor a Jane o gwmni Ymgwymerwyr E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau urddasol a thrylwyr o'r angladd. Diolch o galon i bawb.

Merched y Wawr Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Menna, a dilynwyd gyda Chân y Mudiad. Llongyfarchwyd Nan a Siôn ar achlysur eu Priodas Ruddem a llongyfarchiadau mawr i Olwen ar ennill y drydedd wobwr am ei bara brith yn Sioe Llanellwedd. Llongyfarchwyd ieuencid y fro ar eu canlyniadau clodwiw yn yr amrywiol arholiadau a'r eisteddfodau. Anfonir ein cofion gorau at bawb sy'n sâl a da deall fod Gareth, gŵr Megan, yn gwella wedi ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwyd â Gwenda ac Iwan ar ôl colli mam, mam-yng-nghyfraith a nain hoff. Dymunir bob hapusrwydd i Eryl ac Islwyn yn eu cartref newydd yn Afon Rhos. Llongyfarchiadau i Meirwen ar ddod yn nain i Jaco, mab i Owain a Glesni, Caerdydd. Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Gapel y Rhos am y te a'r coffi tuag at y Bore Coffi er budd Nepal. Diolchwyd i Pat am argraffu'r cardiau aelodaeth. Cafwyd adroddiad ariannol manwl gan Megan a chytunwyd i brynu wrn newydd i'r gangen. Gŵr gwadd y noson oedd y Parchedig Marcus Robinson, gweinidog poblogaidd yn yr ardal ac arbenigwr ar win. Pwnc y noson oedd olrhain ei hanes fel Caplan. Dechreuodd bregethu yn 18 oed ac yn ystod dyddiau coleg cydoesai â phobl oedd yn y wladwriaeth. Hwy a blannodd yr hedyn iddo fynd i'r Gaplaniaeth er mwyn ehangu ei fyd. Yn fuan wedi ymuno â'r Llynges Frenhinol, sydyn iawn y sylweddolodd fod perthynas agos â phobl, a hynny mewn byr amser, yn holl bwysig. Mewn sefyllfaoedd dwys a thrawmatig mae Caplan yn gweithio dan reolau'r 'Geneva Convention' ac ymaelodir â'r Groes Goch. Bu'r Parch Marcus Robinson yn Gaplan yn y Falklands. Do, bu yntau yn pryderu sawl gwaith am ei fywyd. Ond oherwydd ei bersonoliaeth fywiog a ffraeth, ei ffugenw gan y milwyr oedd 'Taff the Laugh' - ac mae ganddo chwerthiniad

iach. Mewn sefyllfa ddirdynol ymateb y milwyr fyddai, 'Laugh Padre, they can't shoot when you laugh.'

Ar Sul y Cofio mae bob amser yn falch o olrhain ei hanes fel plentyn yng Nghaernarfon ac yn gofio gweld y milwyr dewr o flaen y Gof Golofn ar y Maes ac yn meddwl am eu profiadau a'r teimladau cymysg. Bellach gall gydymdeimlo â phob milwr dewr ar Sul y Cofio.

Boed i ninnau ar Sul y Cofio y Tachwedd hwn gofio am yr hogiau a diolch am wasanaethau amhrisiadwy y rhai sy'n barod i gynnig clust i wrando parod ac i siarad a rhannu profiadau. Diolchwyd i'r Parch Marcus Robinson am rannu ei brofiadau gan Menna. Diolch i Mair, Margaret Christian ac Eiriona am ofalu am y baned. Beth, Carys, Gwenda ac Eirianwen fydd yng ngofal y te mis nesaf. Enillydd y raffl oedd Carys Wyn. Mis Hydref edrychir ymlaen at gwmni Gwen Aaron gyda 'Teithiau Arfordir Ceredigion'.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant Mis Medi: 1. Ifanwy Jones, Brynrefail; 2. Iwan Roberts, Llanrug.

Diolchiadau Fe ddymuna Pat, Vera, Keith ac Elaine a'r teulu ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt fel teulu ar achlysur eu profedigaeth yn colli eu mam, sef Mrs Joan Williams. Roedd yn fam, nain, hen nain a hen hen nain arbennig iawn. Diolch o galon i bawb.

Llongyfarchiadau Daeth Selwyn a Marian Lloyd, Afallon, Bryn Moelyn yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab bach i Owain a Glesni yng Nghaerdydd. Croesawyd Jaco Owain gan y teulu i gyd, yn enwedig Elsa, ei chwaer fawr. Llongyfarchiadau mawr.

Hefyd fe ddaeth Dafydd a Cerid McKinnon yn daid a nain am y tro cyntaf pan annwyd merch fach, Ella Ruby,

i Huw a Kathy. Pob dymuniad da i chi i gyd a llongyfarchiadau mawr.

Profedigaeth Yn dawel ar ôl brwydr hir, bu farw Einir, gwraig annwyl Berwyn, 34 Glanffynnon, yn 59 mlwydd oed. Mi fydd colled enfawr iddo fo a'r teulu, ei thad, Eric Jones, Bontnewydd, ei chwaer Glenda a Goronwy, Maldwyn, Sian, Elliw, Iolo ac Ifan, Gethin, Eryl, Islwyn, Nerys ac Elwyn a'u teuluoedd aci'w ffrindiau lu. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf atoch.


Brysiwch Wella Cafodd Tecwyn Roberts, Glyn Awel, driniaeth yn Ysbyty Lerpwl ddiwedd yr haf. Brafyw deall ei fod yn gwella'n dda erbyn hyn. Mae Gwilym Rees Parry, Morannedd, hefyd wedi cael triniaeth yn Broadgreen, Lerpwl. Mae yntau wedi cael dod adref ac yn gwella bob dydd.

Yn Walton, Lerpwl, y bu Dafydd Lloyd Owen, 1 Rhos Crawia, yn cael ei driniaeth. Mae yntau adref erbyn hyn ac yn cryfhau yn ddyddiol. Dymuniadau gorau i'r tri ohonoch.

Cydymdeimlo Ein cydymdeimlad llwyr ag Iris, 9 Hafan Elan, a'i chwaer, Gwyneth a'i gŵr, Maldwyn yn Bontnewydd sydd wedi colli eu mam, Mrs Gwladys Jones, gynt o Hafod Olau, Deiniolen. Roedd hi erbyn hyn yng Nghartref Plas Pengwaith, Llanberis lle cafodd ofal arbennig iawn. Roedd yn nain i Arwyn ac Eifion ac yn hen nain i Tanwen a Logan.

Hefyd bu farw Mr Eryl Closs Parry, 24 Hafan Elan. Cydymdeimlwn â'i briod a'r teulu oll yn eu profedigaeth hwythau.

Llongyfarchiadau i Pat ac Edgar Jones, Tŷ Ni, ar ddod yn nain a thaid eto. Ganwyd Elis David Llewelyn Pierce ar Fedi'r 10fed. Mab bach i Sharon a Leyton a brawd bach annwyl i Cara.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE

LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

Parhad LLANRUG

Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo

yn Ysgol Brynrefail.

Nos Wener 13eg o Dachwedd am 5.30pm

Cynnyrch y cystadleuthau Celf a Chrefft i fod i mewn erbyn 3.00pm
bnawn Sul, 8fed o Dachwedd yn Ysgol Gynradd Llanrug.

Trefn Ymarferion

Cychwyn ar y 6ed o Hydref a bob nos Fawrth hyd y steddfod (heblaw am wyliau hanner tymor)
6pm - 6.30pm - ymarfer gyda Chôr y Babanod ac yn mynd dros yr unawdau'n dorfol.
6.30pm - 7pm - yn ymarfer gyda Blynnyddoedd 3, 4, 5 a 6 - Côr ac unawdau'n dorfol.
7pm - 7.30pm - Partïon Llefaru 3,4,5 a 6.
Dawnsio gwerin 4,5 a 6 bob nos lau yn cychwyn ar 8fed o Hydref

(Bydd angen cymorth gan y rhieni ar y nosweithiau ymarfer)

Am fwy o wybodaeth gweler Facebook Eisteddfod Pentrefi Llanrug a Chwm y Glo

Noson Eillio Barf.

Ar nos Sadwrn 7fed o Dachwedd yn Y Glyntwrog, Llanrug bydd noson arbennig i godi arian yn cael ei chynnal. Bydd dwy farf a llond pen o wallt yn cael eu heillio, a hynny i godi arian er cof am Elis Wyn Griffith ac i Gronfa Ty Gobaith. Y ddau fydd yn wynebu llafn y rasal yw Ifor Green o Benisarwaun ac Iwan Jones o Lanrug. Fydd y driniaeth ddim yn newydd i Ifor, oherwydd ddwy flynedd yn ol, cynhaliodd noson debyg tuag at Ty Gobaith, a llwyddo i godi £2500. Y gobaith yw cyrraedd y nod hwnnw eto eleni. Bydd raffl, carioci a disco yn cael eu cynnal ar y noson hefyd. Mae croeso i unrhyw un noddi'r achlysur a dod yno i gefnogi a mwynhau'r hwyl.

Capel y Rhos Oedfaon mis Hydref

- 4: Gweinidogaeth 11: Dr Tudor Ellis
- 15: Gwasanaeth Diolchgarwch
- 25: Parch Ddr Geraint Tudur

Cyflwynydd Newydd Criw Cyw



Cyhoeddwyd yn ôl ym Mis Mehefin mai Huw Owen o Lanberis fydd yn cyd-gyflwyno rhaglenni Cyw gyda Catrin Herbert o fis Medi 2015. Mae Huw bellach wedi ymddangos ar y Sgrin.


Cyw yw gwasanaeth plant S4C sy'n cael ei darlledu yn ddyddiol. Meddai Sioned Wyn Roberts, Comisiynydd Cynnwys Plant S4C: "Rydym yn falch iawn o gael croesawu Huw fel cyflwynydd newydd Cyw ac mae'n edrych ymlaen at gael arwain plant i fyd hudol Cyw gyda Catrin."

Mae Huw yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Dolbadarn ac Ysgol Brynrefail ac wedi mwynhau canu a pherfformio ers ei ddyddiau yn yr ysgol gynradd.

Yn ei amser sbâr mae'n mwynhau chwarae pêl-droed a chwarae'r gitâr.

"Dwi wedi mwynhau perfformio ers i mi allu cofio yn enwedig wrth i mi gymryd rhan mewn sioeau'r Urdd. Mae symud lawr i Gaerdydd i ymuno â thîm Cyw yn gyfnod cyffrous iawn a dwi'n edrych ymlaen at gyflwyno'r rhaglenni a chymryd rhan mewn sioeau byw," meddai Huw.

Meddai Helen Davies, Pennaeth Cyw o gwmni Boom Plant, "Ar ôl cyfnod prysur o chwilio am gyflwynydd i ymuno â'r tîm, mae'n bleser croesawu Huw atom ni. Mi fydd yn bartner perffaith i Catrin Herbert ac yn wyneb y bydd gwylwyr Cyw yn dod i'w adnabod yn dda iawn."



www.fframia.com

FFRAMIA

Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau



TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**

3 CARADOG PLACE • DEINIOLLEN • LL55 3H5

DODREFN A LLORIAU PERKINS FURNITURE & FLOORING

••• 01286 673535 •••

www.perkinsfurniture.co.uk

16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1AG

POSH PAWS

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Pryd i bawb

**Arlwyo at bob achlysur
Yn ynrhyw leoliad
Bwffe Blasus o Safon**

PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD • PARTI • TE
ANGLADD
BASGED PICNIC

BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN

CERID MACKINNON

(01286) 673190
Symudol 07774 925502

Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn 2015

Wedi llwyddiant ysgubol Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn yn 2014, penderfynwyd cynnal y seremoni eto'r flwyddyn hon. Cynhaliwyd y seremoni eleni yng Nghanolfan Hamdden Biwmares.

Cafwyd noson lwyddiannus dros ben dan arweiniad y gyflwynwraig boblogaidd, Nia Parry. Diddanwyd pawb gan Gôr Ysgol Dyffryn Ogwen ynghyd â Band Pres Biwmares. Cafwyd hefyd sgwrs ysbrydoledig gan un o dim hyfforddi Tîm Pêl-droed Cymru, Osian Roberts.

Meddai'r Cynghorydd Mair Rowlands, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd ar gyfer Gwynedd Iach:

"Llongyfarchiadau i bawb a'u henwebwyd ac yn arbennig i'r rheini a wnaeth hi i'r rhestr fer, mae'n anhygoel faint o dalent sydd ymysg ein pobl ifanc. Yn ogystal, diolch i holl noddwyr y noson - mae'n grêt gweld gymaint o fusnesau lleol yn rhan o'r noson."

Noddwyr Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Ysgolion Gwynedd a Môn 2015, oedd Sional, Joloda, RAF Fali, Williams Denton, Stena Line, Always Aim High, Cymdeithas Chwaraeon ysgolion Eryri a Chwaraeon Anabledau Cymru.

Am fwy o wybodaeth am chwaraeon a gweithgareddau i blant yng nghanolfannau hamdden Gwynedd, ewch ar y wefan

www.gwynedd.gov.uk



Bachgen y Flwyddyn Uwchradd
Rhun Williams- Ysgol Brynrefail



Tîm y Flwyddyn Uwchradd
Tîm pêl Rwyd dan 18 genethod - Ysgol Brynrefail

Dathlu Diwylliant ac Eisteddfodau Nodedig Cymry America

Yn ôl yr awdur, Eirug Davies "Mae eisteddfod fawr Chicago


1893 yn haeddu cael ei hystyried yn eisteddfod yr un mor nodedig ag eisteddfodau Aberteifi, Caerfyrddin a Chaerwys..." Roedd anferthedd rhai o eisteddfodau'r cyfnod yn yr Unol Daleithiau yn hynod arwyddocaol wrth ddangos effaith y mudo i'r UDA a chryfder y Gymraeg yno am gyfnod. Mae'r awdur hefyd yn nodi y codwyd 600 o gapeli gan y Cymry ar draws y wlad erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Dyma bynciau a drafodir gan Eirug Davies yn ei gyfrol newydd Y Winllan Well sy'n cwmpasu cyfraniad y Cymry yn yr Unol Daleithiau o gyfnod yr ymfudo cyntaf yn yr unfed ganrif ar bymtheg hyd at y ganrif ddiwethaf.

Mae'r gyfrol yn cynnwys deunydd ar sawl maes, yn cynnwys trafferthion yr ymfudwyr cynnar a hwyliodd i America yn yr ail ganrif ar bymtheg. Meddai Eirug: "O'r holl fordeithiau i'r America, hwyrach nad oes yna'r un a ddylanwadodd gymaint ar Gymru â mordaith William Penn yn 1682..." Dyma'r fordaith a arweiniodd at bresenoldeb cymaint o Gymry ym Mhensylfania oherwydd erledigaeth grefyddol yn eu mamwlad.

Yn Y Winllan Well olrheinir hanes cenhadaeth y Shawnees, rôl y Cymry yn ystod y Chwyldro Americanaidd a'r dynion a fu'n brwydro yn y rhyfel, gweithfeydd glo a dur Pensylfania, y Cymry yn Efrog Newydd a dylanwad yr eisteddfodau. Adroddir hanes amrywiaeth eang o gymeriadau wrth iddynt ymgartrefu tu draw i'r Iwerydd, gan sôn am yr heriau a fyddai'n eu hwynebu ar yr ochr arall - o beryglon y mordeithiau cyntaf i sefydlu diwylliant Cymreig yn wyneb goruchafiaeth y diwylliant Anglo-Americanaidd.

Dyma gofnod hanesyddol cynhwysfawr o bobl ein cenedl a chyfraniad arbennig ar hanes ac etifeddiaeth y Cymry yn America gan un o arbenigwyr mwyaf blaengar y maes.

Daw'r awdur yn wreiddiol o Lan-non yng Ngheredigion. Treuliodd 29 mlynedd yn ymchwilydd gyda'r awyrlu yn Boston, Massachusetts. Yn ystod y cyfnod hwnnw fe gyhoeddodd sawl erthygl ar bwnc y microsglodyn a bu hefyd yn gyfrifol am arolygu a monitro gwaith pobl mewn sefydliadau ymchwil. Bellach mae'n aelod cysylltiol o'r Adran Astudiaethau Celtaidd ym Mhrifysgol Harvard. Mae'r awdur eisoes wedi ysgrifennu cyfrolau eraill yn y maes - yn cynnwys The Welsh of Tennessee. Cafodd ei urddo fel derwydd y Wisg Las yng ngorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol 2015 am ei wasanaeth i'r genedl.



KEVIN DAVIES
Plastrwr Profiadol

Pob math o waith
cynnal a chadw
- mewnol ac allanol
Amcan-bris am ddim

Ffôn: 01286 650655

**Ffôn symudol:
07918733510**

e-bost: kevindavies6287@gmail.com



O'r Cynghorau

**Cyngor Cymuned
Llanberis**

COFNODION GORFFENNAF 2015:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, ar nos Iau yr 16eg o Orffennaf 2015 am 7.30 yr hwyr.

1 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Eurig Druce, Gwilym Evans, Iwan Harding, Bethan Holding, Derek Jones,

Ward Peris: Iola Owen. Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Ymddiheuriadau:. Barry Davies, Olwen Gwilym, Dafydd Roberts, Gwenda Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.

2 DATGAN BUDDIANT: Neb

3 CADARNHAU COFNODION:

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Iau y 18fed o Fehefin, 2015 fel rhai cywir .

4 MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Cysgodfan Bws Newydd:

Adroddwyd fod y gysgodfan wedi cyrraedd. Roedd yr ymgymwrwr wedi addo ei hadeiladu'r wythnos hon, ond hyd yma doedd dim arwydd o hynny.

2. Damwain:

Mewn perthynas â'r ddamwain lle boddwyd dau ger y Rhaeadr roedd y Clerc wedi derbyn nodyn oddi wrth Barry Davies yn dweud fod Cyngor Gwynedd (CG) yn edrych ar ddiogelwch y lle.

3. Banc:

Cafodd y Clerc ateb i'w llythyr a ysgrifennodd at Reolwr Cangen HSBC, Caernarfon. Gwaetha'r modd fydd dim ailfeddwl ynglŷn â chau'r gangen yn Llanberis. Eglurwyd fod sawl rheswm, ymhlith y rhai blaenaf 'roedd y newid mawr mewn dulliau bancio. Eglurwyd y byddai'r banc yn cysylltu â chwsmeriaid a fyddai'n ei chael hi'n anodd addasu. Adroddwyd y byddai modd bancio yn y Swyddfa Bost, ac ychwanegwyd fod modd codi arian yno hefyd. Doedd dim sôn yn y llythyr am ddyfodol y peiriant 'twill yn y wal' er i'r Clerc yn benodol holi beth fyddai ei hynt. Penderfynwyd ail ysgrifennu ynglŷn â'r ATM.

Adroddwyd fod Plaid Cymru a'r AS, Hywel Williams, yn ymgychu i gadw'r Banc ar agor, ond doedd dim arwyddion addawol o gwbl.

4. Arwyddion anawdurdodedig:

Roedd y Clerc wedi cwblhau rhestr weddol fanwl o'r holl arwyddion ac ar fin ei hanfon i Cyngor Gwynedd.

5. Y Llyfrgell:

Adroddwyd fod ymgynghoriad gan Cyngor Gwynedd ynglŷn â dyfodol Llyfrgelloedd y sir.

6. Mainc Cae Chwarae Blaen Ddôl:

Cafwyd caniatâd i leoli'r fainc newydd yn y cae chwarae a bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdani.

7. Cymorthdaliadau Blynnyddol:

Cyflwynwyd ffurflen i wneud cais am gymorth ariannol gan y Clerc, ynghyd â llythyr i'w anfon i unrhyw gymdeithas a fyddai'n dymuno gwneud cais. Mae'r ffurflen yn holi am fanylion y clwb/cymdeithas/mudiad ynghyd â mantolen ariannol flynyddol a thaenlen ddiweddaraf y banc. Cytunwyd ar y drefn, ceisiadau i'w trafod yn yr Hydref.

5 MATERION ERAILL:

1. Hwb:

Soniwyd fod cynlluniau gan un neu ddau i geisio creu cwmni cymunedol. Prin oedd y manylion ac awgrymwyd gwahodd y trefnwyr i ddod i gyfarfod pan fydd ganddynt gynlluniau penodol.

2. Cynllun Trydan Adnewyddol Cymunedol:

Cafwyd cais gan aelod o'r cwmni am gael dod i gyfarfod nesaf y Cyngor i adrodd am ddatblygiadau diweddarâ'r cwmni. Penderfynwyd ei wahodd i gyfarfod nesa'r Cyngor ym mis Medi.

3. Llinellau Melyn:

Atgoffwyd y Cyngor nad oedd unrhyw beth wedi dod o'r cais i Cyngor Gwynedd am linellau melyn ychwanegol ym mhen gorllewinol y pentref, ac am fannau parcio ychwanegol yn dilyn adroddiad a baratowyd gan ddau Gynghorydd dros ddwy flynedd yn ôl. Dywedodd Emlyn Baylis ei fod wedi cysylltu â CG ac wedi trafod y mater gydag un o'r swyddogion ond heb fawr o lwc. Dywedodd y Clerc ei fod wedi chwilio am yr adroddiad a baratowyd gan Emlyn Baylis a Trystan Thomas, ond na fedrai gael hyd i gopi. Addawodd Emlyn Baylis anfon copi i'r Clerc er mwyn i'r Clerc ail godi'r mater â Chyngor Gwynedd.

4. Materion Ffyrdd eraill:

Adroddwyd fod parcio peryglus ger Halford Hill o flaen y 'Llysoedd'. Addawodd y Clerc gysylltu â CG. Holwyd hefyd a gafwyd gwybodaeth bellach am yr 'ynys' i gerddwyr a symudwyd o ganol y ffordd ger gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa.

5. Archwilio:

Cyfeiriodd Bethan Holding at Adroddiad Archwiliwr Cymru yr oedd wedi edrych arno er y cyfarfod diwethaf, ac roedd un neu ddau beth a allai fod yn bwysig o ran gweinyddu'r Cyngor. Addawodd fanylu ymhellach mewn nodyn e-bost at y Clerc.

6 GOHEBIAETH:

1. APCE - Cynllun Mentora:

Llythyr yn nodi fod Awdurdod Parc Eryri yn bwriadu dechrau cynllun mentora ar gyfer darpar aelodau o'r Awdurdod er mwyn ceisio cynyddu amrywiaeth ymysg yr aelodau a benodir ac adlewyrchu'n well y cymunedau a wasanaethir ganddo.

2. Cyngor Iechyd Gogledd Cymru:

Llythyr yn egluro gwaith y corff, sydd meddir, yn cynrychioli buddiannau cleifion, eu gofalwyr a'u perthnasau yn ogystal â buddiannau'r cyhoedd yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Mae'r corff yn barod i wrando pryderon ac yn cynnig dod i gyfarfod y Cyngor.

3. Cymorth Cynllunio Cymru:

Nodyn fod gweithdy hyfforddiant ar gynllunio i'w gynnal yn rhad ac ddim ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Thref ym Mhlas Tan y Bwlch, Maentwrog ar y 3ydd o Awst rhwng 6 a 9 yr hwyr. Neb ar gael.

4. Un Llais Cymru:

Cynhadledd ULIC ym Mhafiliwn y Bont, Pontrhydfendigaid, Ceredigion, Sadwrn y 3ydd o Hydref, ar y testun 'Diwygio Llywodraeth Leol'.

5. APCE:

Rhestr o ddyddiadau cyfarfodydd yr Awdurdod a'r Pwyllgorau Cynllunio.

7 CYNLLUNIO:

1. Cyngor Gwynedd:

- C15/0649/15/LL - newid defnydd cyn iard bysiau i faes parcio - cyn safle Padarn Bus Co, Y Glyn, Llanberis

Dim gwrthwynebiad.

- C15/0659/15/LL - diwygio amod 2 o ganiatâd C11/0552/15/LL trwy ddileu dau fodurdy fel a ganiatawyd ac ychwanegu man storio beics a chreu mynediad cadair olwyn - 43 Stryd Fawr, Llanberis

Bu'r Cyngor hwn yn anfonlon iawn â'r datblygiad yma gan ei wrthwynebu yn 2011. Ym marn y Cyngor roedd yn ddatblygiad a oedd yn gorlenwi'r safle gyda gormod o unedau llety a dim digon o lefydd parcio. Mae amheuaeth a oedd hawl i geir i fynd i gefn yr adeilad pan ganiatawyd y ddwy garej, ond felly y bu. Bellach mae'r ddwy garej wedi eu newid a hynny heb ganiatâd cynllunio. Tipyn o ffars a dweud y lleia felly ydi'r cais yma, gan nad diwygio'r amod sydd yma, ym marn y Cyngor, ond cais ôl-weithredol. Er yn gwrthwynebu'r newidiadau derbynnir na ellir gwneud llawer o ddim ond ei ganiatau, ond dylai CG gael ei atgoffa eto y dylid sicrhau digon o fannau parcio cyn caniatáu adeiladu o'r newydd neu addasu hen adeiladau fel cartrefi, yn enwedig ar raddfa fawr fel sydd yn y lleoliad yma.

2. APCE:

- NP3/15/4F - cais ôl-weithredol i gadw rhan o adeilad gardd i'w ddefnyddio fel swyddfa a storfa gardd - 2 Mur Mawr, Llanberis

Gwrthwynebu'r cais. Mae'r adeilad a godwyd yn anghyfreithlon ac yn llawer mwy nag adeilad gardd. Mae'n ymddangos iddo gael ei ddefnyddio fel uned byw. Mae'r Cyngor yn gresynu fod hwn yn gais ôl-weithredol a'r datblygwr wedi anwybyddu'r drefn gynllunio. Pwysleisiwyd ei fod yn digwydd yn rhy aml.

- NP3/15/32F - cais ôl-weithredol i newid defnydd rhan o adeilad amaethyddol i gaban hufen iâ i fod ar agor gwyliau Pasg, gwyliau'r haf a phenwythnosau rhwng Ebrill a Medi - Y Sied, Penceunant Uchaf, Llanberis

Dim gwrthwynebiad, er yn gais ôl-weithredol, am ei fod o faintioli bychan ac o fewn adeilad llawer mwy. Credir y dylid rhoi amodau caeth ar y caniatâd, ac nid yw'r Cyngor hwn am weld datblygu uned mân-werthu sylweddol yma yn y dyfodol.

GAREJ

CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Llanddeiniolen

yn Ysgol Gymuned Penisarwaun nos Fawrth, 1af o Fedi 2015
Yn bresennol: Y Cadeirydd Miss Phyllis Ellis a'r Cynghorwyr, Sion Jones, Rhian Evans, Carolyn Roberts, Jane Pierce Jones, Elfed Williams, Idris Thomas, Richard Ll. Jones, Geraint Elis a Gwilym Williams.
Croesawyd Mr. Keith Jones a Mr. Ifor Jones o gwmni YnNi Padarn Peris Cyf. Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan Richard Ll. Jones.
1. Ymddiheuriadau. Geraint Hughes, R. Hefin Williams, Rachel Williams, Aled Green a Phyllip Jones.
2. Datgan buddiant. Dim
3. Cofnodion cyfarfod 7fed Gorffennaf 2015.
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.
4. Materion o'r cofnodion
Cae Pella Rhiwlas – Derbyniwyd llythyr o Wynedd yn cadarnhau nad oes cyllideb wedi ei neilltuo i adeiladu meysydd parcio newydd o fewn cymunedau yng Ngwynedd.
Gordyfiant yn Rhydfadog – Derbyniwyd llythyr i law yn cadarnhau fod y gwaith bellach wedi ei gwblhau.
Datgyfyngiad Arfaethedig A4244 – Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau gostwng cyfyngiad i 50 milltir yr awr o Groeslon Tŷ Mawr drwy Pentir ac yn bwriadu ymestyn hyn at gyffordd A5, Llys Y Gwynt.
Brynrefail – Gan fod lôn Brynrefail yn cael eu ail hwynebu, bydd yn rhaid symud y safle bws at lôn Penllyn am gyfnod o bythefnos.
Gordyfiant rhwng Tan y Weirglodd a Dorlan Goch. Derbyniwyd llythyr yn gobeithio bydd y gordyfiant yma i'w drin yn y dyfodol agos.
Materion Ffyrdd
Lon Racca i Cwt Band – Daeth llythyr i law yn argymhell fod y cyngor yn mynd i wneud mân drwsio nes y byddant mewn sefyllfa i ymgymryd â chynllun cynhwysfawr ar ei hyd. OND pa Bryd? Rhoed sylw eto bod yn rhaid rhoi blaenoriaeth i drwsio a pheintio llinell wen ar ochor y ffordd gan fod pryder gan drigolion yr ardal bod tyllau mawr yn ochor y ffordd a fuasai yn beryg iawn ac yn gallu achosi damwain. Clerc i yrru llythyr Eto i Wynedd.
Pant ger Cwt Dŵr Marchlyn – Yn dilyn archwiliad o'r safle, mae amheuon fod problem dŵr o dan y ffordd, sy'n cyfrannu at y broblem. Gobeithio rhoi sylw i'r gwaith yma yn fuan.
Llwybrau - Llwybrau yr ardal i gyd wedi cael eu torri. Nodwyd fod wal i lawr ger yr hen ysgol yn Llanddeiniolen, adroddwyd ar hyn i Wynedd ac mae'r safle wedi cael ei archwilio.
Y clerch i holi Gwynedd a oes modd trin ambell i lwybr gyda chwyn laddwr.
Allt Ddu – Bydd bin ychwanegol yn cael ei osod yno.
Diolch -Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Sion Emlyn Parry
YnNI Padarn Peris Cyf.
Cawsom ddiweddariad ar y cynllun cyffrous yma, a fydd o fudd ariannol

mawr i'r ardal. Esboniwyd bod 5 cynllun tebyg nepell o'r ardal, ac maent i gyd wedi eu sefydlu gan wirfoddolwyr.
Diolchwyd i'r ddau am eu gwaith ac am ddod atom i roi braslun o'r cynllun.
Yn dilyn trafodaeth ymhellach gan y cynghorwyr, cytunwyd yn unfrydol i gefnogi'r cynllun, a thrwy hynny anfon llythyr i sylw adran cynllunio Gwynedd yn datgan ein cefnogaeth i'r cais cynllunio.
5. Gohebiaeth a materion eraill.
Adran Cynllunio
Daeth llythyr i law sy'n awgrymu fod ansicrwydd ynglŷn â'r ffordd neu'r drefn sydd yn cael ei ddilyn gan Gyngor Gwynedd pan fo Cynghorau Cymunedol yn datgan gwrthwynebiad am geisiadau cynllunio. Awgrymwyd i'r clerch lythyru â'r Adran Cynllunio yn gofyn yn union beth sy'n digwydd neu beth yw'r drefn pan mae Cynghorau Cymuned yn cwyno neu yn gwrthwynebu cais.
CCG – Derbyniwyd posteri gyda thai ar gael dan rent yn Pentre Helen, Deiniolen. Gyrru llythyr yn ôl yn awgrymu iddynt ystyried hysbysebu hyn yn ein papur bro lleol, Eco'r Wyddfa a thrwy hyn yn gobeithio estyn allan tuag at y Cymry lleol.
6. Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd:
24 Bryn Tirion, Penisarwaun- Cais ôl weithredol ar gyfer codi ports.
Tan y Bryn, Gallt y Foel – Codi estyniad ochr a blaen gyda balconi uwchben a chreu mynedfa i gerddwyr
63 – 81 Caeau Gleision, Rhiwlas – Cais i newid/ ddiddymu amod 11.
Tir ger Y Bedol, Bethel – Newid trefniadau parcio i'r safle o'r hyn a ganiatawyd Pen y Bryn, Llanddeiniolen – Codi estyniad un llawr ochor
Canolfan Gymunedol Dinorwig – Newid amod 6 o ganiatâd cynllunio sy'n ymwneud ac oriau agor y caffi
Coed Bolyn Lodge, Bethel -Gosod to pits yn lle to fflat
Bryn Goleu, Lôn Garret, Dinorwig - Rhyddhau amod 4.
Fferm Tyddyn Forgan – Trosi adeilad allanol presennol i anecs a newidiadau i'r fynedfa.
O Gwmpas y Bwrdd:
Dywedwyd buasai'n hwylus gweld 2 loches bws o'r newydd ym Methel.
Dywedwyd fod costau hyn yn uchel, a bod modd defnyddio lloches bws dros ffordd a chroesi drosodd pan fo'r bws ar gyrraedd.
Roedd ambell bryder fod newyddion i gyd ddim yn cael eu argraffu yn Eco'r Wyddfa.
Esboniwyd gan gynghorydd fod yna eglurhad yn yr Eco fis yma yn hollol glir pam fod hyn yn digwydd. Dywedwyd hefyd fod y gwaith o greu y papur gan Pwyllgor Gwaith yr Eco i'w ganmol, gan fod Eco'r Wyddfa bellach oddeutu 32 tudalen o faint, sydd yn dipyn o gamp i bapur bro.
Gofynnwyd am i Praesept a Cyllid fod yn eitem ar raglen mis Rhagfyr er mwyn cael trafodaeth a blaenoriaethu y gyllideb ar gyfer 2016/2017.
Dangoswyd adroddiad a oedd wedi ei argraffu mewn papur wythnosol ynglŷn â Chynllun Datblygu Gwynedd a Môn. Gofynnodd i gopi gael ei rannu i bob aelod. Gofynnodd hefyd am gopi o rhestr taliadau a derbyniadau o ddechrau'r flwyddyn gyfredol i gyd fynd â thrafodaeth ceisiadau gan fudiadau y mis nesaf.

Adroddiadau Pentref – Cwm y Glo
Adroddwyd fod tyllau difrifol yn y ffordd ar hyd y pentref a bod Cyngor Gwynedd yn ymwybodol o hyn.
Adroddwyd fod cwynion yn parhau i ddod i law am y gwaith tyllu i'r graig wrth ymyl modurdy Cwm y Glo.
Adroddwyd byddai Cwm y Glo yn dymuno cael biniau ychwanegol i'r pentref.
Adroddodd y Cynghorydd Alan Pritchard ei fod wedi bod mewn trafodaeth â CADW ynglŷn â lle i roi cofeb.
Penderfynwyd rhoi cyfle i Menter Fachwen beintio'r meinciau yn nghae chwarae Cwm y Glo os byddai'r pris yn dderbyniol.
Adroddiadau Pentref – Llanrug
Adroddwyd fod y coed i lawr at Crawia wedi eu tocio ar ôl cysylltiad â Chyngor Gwynedd.
Penderfynwyd i gysylltu â Chyngor Gwynedd a gofyn iddynt i dorri'r coed ar hyd Lôn Glanffynnon gan bod arwyddion yn cael eu gorchuddio gan y tyfiant. Hefyd y coed gyferbyn a thŷ tafarn Penbont oherwydd eu bod yn amharu ar allu gyrwyr i weld tuag at y bont am Benisarwaun.
Glanhau Pentref - Adroddwyd fod nifer o wirfoddolwyr yn mynd o gwmpas yn glanhau'r pentref a bod y gwaith yn dwyn ffrwyth. Ychwanegwyd bod croeso i unrhyw un ymuno â'r criw.
Y Fynwent
Adroddwyd fod yr arwydd am gŵn wedi ei droi rownd ond nad oedd y meinciau wedi eu peintio eto.
Adroddwyd fod giât i'r fynwent yn cael ei gadael ar agor a bod hyn yn gadel i anifeiliaid grwydro i'r fynwent. Penderfynwyd cysylltu â'r Ficer a gofyn iddi atgoffa'r gynulleidfa ar i bawb gau'r giât.

ECO'r Wyddfa

O'r Cynghorau

Cyngor Cymuned Llanrug a Chwm y Glo

21ain o Orffennaf 2015
Elusennau
Adroddwyd fod nifer o elusennau yn enw'r Cyngor a bod angen edrych i fewn i bwrpas a nod cyfredol yr elusennau. Penderfynwyd i edrych i mewn i'r rheolau a chysylltu â'r Comisiwn Elusennau.
Cyfarfod Mis Awst
Penderfynwyd peidio cynnal cyfarfod Mis Awst gan y bydd nifer o'r aelodau i ffrwdd ac mae'n bosib na fyddai digon yn bresennol i gael cworwm.
Ceisiadau cynllunio:
'Doedd dim gwrthwynebiad i'r cais i estyniadau i'r Fricsan, Cwm y glo a darparu maes parcio.
Cae Chwarae Pwll Moelyn
Penderfynwyd cysylltu â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru i fynegi siom nad ydi'r gwaith byth wedi'i gwblhau er gwaethaf cyfarfod diweddar gyda swyddogion o'r Gymdeithas.
Cae Chwarae Nant y Glyn
Adroddwyd fod archeb wedi'i hanfon i G.L. Jones a'i Gwmni am ddau offer chwarae newydd i gae Nant y Glyn.
Llwybrau Cyhoeddus
Penderfynwyd derbyn y pris gan ymgymwrwr lleol a fu'n edrych ar y gwaith torri coed sydd angen ei wneud ar lwybr Glanffynnon/Afon Rhos oherwydd rhesymau iechyd a diogelwch a gofyn iddynt gychwyn ar y gwaith cyn gynted â phosib.
Penderfynwyd ychwanegu Llwybr 24 at y rhestr o lwybrau sydd angen eu torri a'u twtio.

PLU YN LANSIO EU TRYDYDD ALBWM 'TIR A GOLAU'

Bydd y triawd gwerin gyfoes, Plu, yn lansio eu halbwm 'Tir a Golau' ar 14 Tachwedd 2015 ar label Sbrigyn Ymborth.

Gyda chefnogaeth gan yr enwog Meic Stevens, bydd noson lansio yn cael ei chynnal yn Clwb Canol Dre, Caernarfon gan Noson 4a6.

Dyma drydydd albwm y brawd a dwy chwaer Elan, Marged a Gwilym Rhys o Fethel, Caernarfon. Cafodd ei recordio yn stiwdio Bryn Derwen, Bethesda a stiudio Sain, Llandwrog.

Dywed prif leisydd y band, Elan Rhys:

"Fel mae'n bosib dweud o deitl yr albwm, cafodd llawer o'r caneuon eu hysbrydoli gan y tir o'n cwmpas. I adlewyrchu hyn, roedden ni eisiau arbrofi mwy gyda sain drwy adeiladu haenau a melodïau. Roedd hefyd yn gyfle i ni gymryd mantais o'r holl offerynnau gwahanol oedd ar gael ym Mryn Derwen. Braf iawn hefyd oedd cael offerynwyr eraill i mewn i chwarae ar rai caneuon."

Cafodd yr albwm ei gynhyrchu gan Aled Hughes o'r band Cowbois Rhos Botwnnog sydd hefyd yn rhedeg y label Sbrigyn Ymborth. Dywed:

"Rydym yn falch iawn o gael Plu yn rhyddhau albwm arall ar ein label. Mae Sbrigyn Ymborth yn gweithio'n galed i ryddhau cerddoriaeth yn yr iaith Gymraeg ac rydym yn hynod o hapus o allu cefnogi Plu gyda'u cerddoriaeth hyfryd. Roedd hi hefyd yn bleser cynhyrchu'r albwm a'u helpu i arbrofi gydag offerynnau a synau gwahanol."

Mae'r band eisoes wedi perfformio'r caneuon newydd mewn gigs gyda'u sengl Arthur, a gafodd ei recordio yn stiudio LIPA yn Lerpwl gan Robin Llwyd Jones, ar gael i'w glywed ar eu gwefan Soundcloud.

Bydd y band hefyd yn teithio i berfformio'r albwm diwedd mis Tachwedd. Ar ran o'r daith bydd Plu yn cefnogi Carwyn Ellis, o'r band Colorama, sydd yn lansio ei albwm gyntaf fel artist unigol. Bydd Plu a Carwyn hefyd yn perfformio caneuon o'u prosiect cydweithiol newydd.

Y dyddiadau sydd wedi cadarnhau ar gyfer y daith yw:

19/11/2015 – Lerpwl

20/11/2015 – Manceinion

21/11/2015 – Llangywer, Y Bala

22/11/2015 – Caerdydd

(Lleoliadau i'w cadarnhau)

Mae'r band ar gael i wneud cyfweliadau a pherfformiadau.

Tynnwyd y lluniau sydd wedi eu hatodi gan y ffotograffydd o'r Felinheli, Kristina Banholzer.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Marged Rhys ar 02920 229993 (pluband@hotmail.com) neu 07796691515



Un funud fach ...

DATGYMALU'R GROES

'Nid oeddwn i'n broffwyd, nac yn fab i broffwyd chwaith,' meddai Amos, un o broffwydi'r Hen Destament. Nid wyf finnau na llenor na bardd nac arlunydd, ond gallaf dybio nad yw pob stori neu gerdd neu lun yn gorffen yn union fel y bwriadwyd yn wreiddiol gan y sawl a'u lluniodd. Mae hynny'n sicr yn wir am yr erthygl y bwriadwn ei sgwennu ar ôl gweld y dyn a'i groes ger Pont y Borth.

O'i weld, mi feddyliais ar unwaith fod yma ddeunydd erthygl. Ond erbyn i mi fynd adra a dechrau sgwennu, mi aeth yr erthygl honno i gyfeiriad gwahanol iawn i'r syniad gwreiddiol. Am ei gwerth pe byddech am ei darllen, mae'r erthygl honno, sy'n egluro mai Clive Cornish o Gaerdydd oedd y dyn â'r groes, i'w gweld ar wefan yr Ofalaeth acw (www.gronyn.org).

Ond beth am yr erthygl wreiddiol y bwriedais ei sgwennu? Wyddwn i ddim pwy oedd y dyn pan welais ef. Wyddwn i ddim ei fod wedi cerdded o Gaerdydd gan gario neu lusgo'r groes fawr er mwyn tynnu sylw at yr hyn sy'n ganolog i'r Ffydd Gristnogol. Yr hyn a welais i oedd dyn yn defnyddio sbaner i ddatgymalu croes.

Nid tasg hawdd yw llusgo'r groes hon o amgylch y wlad. Fe gadarnhawyd hynny i mi gan ffrind a ddigwyddodd weld Clive Cornish yn ystod dwy o'i deithiau blaenorol. Mae'r olwyn ar waelod y groes yn hwyluso ei llusgo, meddai, ond mae'r groes ei hun yn dal yn drwm iawn. Ond ar derfyn dydd o gerdded, caiff y groes ei datgymalu. Mae'n rhaid gwneud hynny, mae'n debyg, gan nad oes modd mynd â hi i mewn i westy neu dŷ gwely a brecwast.

Yr hyn a'm trawodd oedd na fedrai Iesu Grist wneud y fath beth. Fedrai o ddim datgymalu'r groes a gariodd i Galfaria. Fedrai o ddim ei rhoi o'r neilltu. Yr unig ysbaid (os ysbaid hefyd!) oedd yr help a gafodd gan Simon o Cyrene i gario'r groes i Golgotha. Ond fedrai Iesu ddim gwared â hi. Er y pwysau, roedd rhaid ei chario i ben y bryn. Er y gwawd a'r dirmyg, ac er y boen a'r blinder, doedd dim modd rhoi'r groes o'r neilltu. Yn unig rhwng dau leidr, dan boen yr hoelion ac yn sŵn chwerthin y milwyr a chabled y dorf, cafodd ei herio i ddod oddi ar y groes a'i achub ei hunan er mwyn profi mai Mab Duw oedd o. Ond doedd Iesu ddim am ildio i'r demtasiwn honno. Fe wyddai'n dda mai'r groes oedd bwriad Duw ar ei gyfer, a bod rhaid iddo ddioddef a marw ar y groes er mwyn dod â gobaith maddeuant a bywyd i bobl fel ni.

Fyddai dim angen sbaner na'r un twlsyn arall ar Iesu i dynnu ei groes yn ddarnau a'i arbed ei hun. Ond o'i gariad mawr, dewis aros ar y groes honno i'r diwedd a wnaeth. A thystio i'r cariad hwnnw y mae Clive Cornish a phawb arall sy'n dal i gyhoeddi croes Crist mewn gair a gweithred.

JOHN PRITCHARD











www.a-v-w.co.uk

01286 673559

CIBYN IND EST. CAERNARFON LL55 2BD
SAFON UCHEL Y GALLWCH EI DRYSTIO
ARBENIGWYR AR GEIR SWEDEN A'R ALMAEN
CEIR, CAMPERS A FANIAU



Ar ben arall i'r lein

Gyda'r tymor yn prysur ddod i ben, daw'r amser i daro golwg ar sut mae pethau wedi bod dros y tymor ac, ydi'n wir, mae'n bleser cael cyhoeddi fod pethau wedi bod yn eithriadol o dda a chynhyrchiol dros yr holl bysgodfa, heblaw Llyn Padarn a'r Afon Seiont. Er bod tipyn o bysgota caled wedi bod does ond un eog wedi ei ddal a rhyw dri dwsin o wyniadau. Malcom Owen, Caernarfon ddaeth â'r eog i'r rhwyd o un o byllau Glan Gwna. Bu John Fraser, Crawia, a Clifford a John Thomas, Y Felinheli wrthi'n ddiwyd am y gwyniadau ar y Finiog ond ychydig iawn ddaeth i'w ffordd. 'Rwy'n credu mai John ddaliodd y trymaf am rhyw 3 phwys. Ond pencampwr y gwyniadau eleni fel, 'rwy'n deall yw Wyn Parry, Caernarfon, mae wedi bod yn 'sgota'n galed ers tua canol Mai am ei helfa, y mwyaf eto am rhyw 4 pwys.

Er fod tipyn o 'sgota ar Padarn ychydig iawn o adroddiadau sy'n dod i'm ffordd am frithyll neu torgoch - ond mae digon i'w glywed am y draenogiaid. Mae rhain, yn ôl pob golwg, yn dderbyniol i rai, ond arwydd ydynt fod ein pysgod cynhenid yn prinhaus a bod balans natur y llyn yn dirywio.

Mae amgylchiadau Dyffryn Peris yn hollol wahanol i ddyffrynnoedd y Gwyrfaï a Nantlle, ble mae diddordebau pysgota eraill y Gymdeithas. Yma mae pethau wedi gwella'n eithriadol dros y tymor. Mae diddordeb mawr yn nhorgoch Cwellyn a nifer o 'sgotwyr oedd wedi troi eu cefnau oherwydd helyntion Padarn yn cael ail afael ynddi dros Gefn Du, gyda thipyn o lwc hefyd yn ôl pob golwg.

Yn barod mae pysgota brithyll brown ar Cwellyn ymysg y gorau yn y wlad ond mae gobaith mawr y bydd eog a gwyniadau unwaith eto yn gallu llwybro drwy'r llyn am nentydd uchaf dalgylch oherwydd fod gwaith ar adeiladu llwybr pysgod newydd ar argae Cwellyn o fewn rhyw fis i'w gwblhau. 'Rydym wedi bod yn erfyn ar i'r gwaith yma gael ei wneud ers dros 30 mlynedd, ac o'r diwedd, dyma ni - gwell hwyr na hwyrach. Ond, wrth gwrs, does dim rhyfedd fod y gwaith yma yn mynd ymlaen gan fod y Gwyrfaï a'r dalgylch wedi ei ddynodi yn Ardal Gadwraeth Arbennig o dan reolaethau Ewrop. Mwyaf tebyg nad oedd y Bwrdd Dŵr na Chyfoeth Naturiol Cymru eisiau beirniadaeth gritigol arall yn eu herbyn.

Yn Nyffryn Nantlle, mae pethau eto wedi bod yn arbennig, gyda'r rhediad y gwyniadau eleni wedi bod yn eithriadol. Rhaid diolch i griw y ddeorfa am eu gwaith di-flino i greu llwybr, camfeydd a stepiau yng nghyffiniau Pont y Cim. Mae'r gwaith yma wedi bod o gymorth mawr i dynnu peth o'r pwysau 'sgota oddi ar byllau Glan y Môr. Gobeithir cario'r gwaith yma 'mlaen o Bont y Cim at Lyn Hir dros y misoedd nesaf. Oes na rywun am gynnig rhoi ychydig o amser i'r prosiect yma? Gwirfoddolwyr yn unig!! Rhaid cofio fod gwaith ein haelodau yn cael ei fanteisio arno gan nifer fawr o rai sydd ddim yn aelodau ond sydd yn mwynhau cerdded y glannau. Oes rhai o'r rhain, tybed, ag ychydig o amser wrth law i agor mwy o lwybrau i'w mwynhau.

O'r Llyfni mae eog trymaf o ddyfroedd y Gymdeithas wedi dod hyd yn hyn - sef un hardd am 12 pwys ar bluen maint 12 o Bwll Lan Môr, a'r sgotwr hapus yw Carwyn Owen, Talysarn.

Os oes rhywbeth wedi cynhyrfu'r dyfroedd, wel penderfyniad



Carwyn Owen eog 12 ps.

Cyfoeth Naturiol Cymru i atal stocio ydi hwnnw. I glywed eu rhesymeg am y penderfyniad amhoblogaidd yma cefais wahoddiad i Gaerdydd ar 2 Medi i dderbyn cyflwyniad i gyfiawnhau ei rhesymau. A bod yn deg, mae'n anodd dadlau yn erbyn eu meddylfryd - a hyn yw mai'r ffordd ymlaen yw atal stocio a gwella'r cynefinoedd fel bod yr holl bysgod yn medru cenhedlu yn eu ffordd naturiol a bod eu hamgylchfyd yn berffaith at y gwaith o fagu y genhedlaeth i ddod. Yr unig beth welaf i o'i le ar hyn yw nad oes dim ystyriaeth wedi ei roi i ardaloedd ble mae'n amhosib dod â'r cynefinoedd yn ôl fel magwrfeydd. Drwy ystyried ein dalgylch ni yma: Llyn Peris - wedi mynd; Afon Dudodyn - wedi mynd; Afon o Lyn Tomos Lewis - wedi mynd; Afon y Bala - fel canal ac yn da i ddim; Afon Peris y rhan isaf - wedi mynd. Ydi, mae'n bosib adfer rhain ond rhaid fydd chwalu gorsaf Dinorwig. A does dim llawer o obaith am hynny!! Ond cofiwch, yng Ngogledd America dyma be sy'n digwydd i adeiladwaith sy'n rhwystr i eog a brithyll môr. Tarwch olwg ar You Tube - Documentary on the Threatened World of Salmon. Gadwech imi wybod be 'da chi'n feddwl.

Do, mi gefais drip i Gaerdydd. Y penderfyniad oedd unai treulio bron i naw awr ar y trênn neu bron i ddeg awr o ddreifio - a dim adref tan drannoeth. Na, mi wnes benderfyniad gŵr bonheddig a fflio i lawr o'r Fali! Wel dyna i chi siwrna a hanner - cychwyn o'r tŷ am rhyw 7.30 y bore ac 'roeddwn yn ôl gartref am ugain munud i chwech y nos. Ac wedi cael tacsï o'r maes awyr i ganol y ddinas. Heblaw am y cyfarfod buasai bws wedi bod ar gael am bris isel. 'Rwyf wedi clywed llawer o feirniadu ar y gwasanaeth yma, ond peidiwch â'i gnocio heb ei drïo. 'Roedd Ieuan Wyn, cyn Aelod Cynulliad Môn, yn llygaid ei le yn sefydlu'r gwasanaeth yma, hefyd i'r llywodraeth bresennol am ei gynnal. Mae'n llawer gwell bargaen na'r trênn na dreifio. Oes mae cyfarfod arall ar Sed Hydref eto yn ymwneud â Phadarn a'r Seiont, mae sedd ar yr awyren wedi ei bwcio'n barod. Be ydi'r gost medda chwi, wel y cwbl am £68. Llai o lawer na'r trênn neu dreifio.

Huw Price Hughes



Afon Peris yn sych



Dudodyn yn sych

RHEDEG MYNYDD

Bu dwy ras fynydd leol yn ystod y mis, sef Pedol Peris ac Elidir. Roedd rhedwyr Pedol Peris yn gorfod ymdopi efo niwl ar y copaon ac wyneb hynod o lithrig mewn rhai mannau, yn enwedig crib Elidir ac ar y ddringfa o'r Lliwedd i gopa'r Wyddfa. Yn ffodus ni chafwyd anafiadau. Llongyfarchiadau i Dyfed Thomas, Llanrug am orffen y rhedwr lleol cyntaf ac i Alwyn Oliver, Dinorwig ar ddod yn ail dros saithdeg oed.

Roedd y tywydd yn well ar gyfer Ras Elidir, oedd yn cychwyn yn Nant Peris, gyda Gareth Hughes, Penisarwaun yn ennill am yr ail flwyddyn yn olynol. Gyda llaw, oni ddylai Clwb Rhedwyr Eryri (sy'n gyfrifol am drefnu'r ras) a Gwyl Ffair Nant ddod i ryw gyd-ddealltwriaeth, a threfnu i'r ras hon gael ei chynnal ar ddiwrnod yr Wyl? Byddai'n sicr o fod o fantais i'r naill ddigwyddiad a'r llall. Yn ystod diwedd Awst hefyd cynhaliwyd Ras y Cnicht o Groesor, gyda dau o Lanberis, Mathew Roberts a Jim Bacon yn gorffen yn gyntaf ac ail.

Pencampwriaethau'r Byd.

Cynhaliwyd Rasys Mynydd Pencampwriaethau'r Byd ym Metws y Coed ganol Medi (er mai ychydig iawn o sylw a gafodd y digwyddiad gan y cyfryngau). Dyma'r tro cyntaf i'r pencampwriaethau hyn gael eu cynnal yng Nghymru, ac yr oedd dosbarthiadau i ddynion a merched o bob oedran hyd 79 oed. Roedd Arwel Lewis o Fethel yn un o'r trefnwyr prysur ar ran Athletau Cymru, ac yr oedd nifer o redwyr a chefnogwyr lleol yn cynorthwyo gyda'r stiwardio.

Traws-Gwlad.

Arwydd sicr fod y gaeaf ar ein gwarthafyw dyddiad y ras gyntaf yng nghynghrair traws-gwlad gogledd Cymru a'r Gororau. Cynhelir y ras gyntaf ar gaeau Treborth ym Mangor ar y Sadwrn cyntaf ym mis Hydref. Rhaid bod yn aelod o glwb rhedeg cydnabyddedig i gael cystadlu yn y gyfres hon.

RHAMANT Y CWPAN

Roedd ffrind i mi ddaru erioed ennill cwpan yn dweud un tro fod y rheswm yn syml. Roedd dewis y timau yn 'ffics'. Roedd o'n gweld pob blwyddyn fod ei dîm o yn gorfod wynebu y timau cryf. Wn i ddim os yw hyn yn wir, ond mae Llanrug a Llanberis yn wynebu ei gilydd yn aml yn ddiweddar. Yn rownd rhagbrofol Cwpan Cymru cyfarfu y ddau eleni. Fel arfer, daeth torf dda i Eithin Duon, a dyma'r cyfle cyntaf i ni gymharu y ddau reolwr 'newydd', sef Mark Jatt ac Iwan Williams. Ac yn sicr roedd tactegau y ddau reolwr yn allweddol yng nghanlyniad y gêm.

I lawr yr allt aeth Llanberis yn ystod yr hanner cyntaf, a hwy ddechreuodd gryfaf. Yn y pum munud cyntaf daeth dau gyfle da i Llanberis – ond aflwyddiannus fu'r ddau gynnig.

Yna y foment ddadleuol. Tacl flêr gan Dylan Owen ar Nathan Williams a cherdyn coch yn syth i chwaraewr ganol cae Llanrug. Roedd cryn drafod ar ochr y cae gan nifer o'r cyn-chwaraewyr ond y mwyafrif yn cytuno gyda'r dyfarnwr. Mantais amlwg i Lanberis felly, ond yma efallai y collwyd y gêm gan dactegau. Yn syth, tynnwyd Kevin Lloyd yn ôl i ganol cae Llanrug, gan adael Marvin Pritchard fel ymosodwr unig. Parhaodd Llanberis i chwarae gyda phedwar yn y rhes gefn – yn marcio un ymosodwr. O'r herwydd roedd Llanrug yn gallu cystadlu yng nghanol y cae, a Terry Jones ac Eifion Williams yn gewri yng nghanol yr amddiffyn.

Ymlaen deuai Llanberis ond, er sawl cyfle, roedd diweddu'r symudiadau yn drychinebus. Daeth y taflïad hir yn undonog, a gwael iawn oedd y defnydd o giciau cornel a chiciau rhydd. Prin iawn roedd angen i Dylan Roberts yn y gôl i Lanrug wneud arbediad.

Daeth canol cae Llanrug yn fwy pwylllog eu pasio ac, wedi 39 munud, aethant ar y blaen. Dipyn o reolaeth da gan Carl Griffiths, ac yntau yn ei thynnu'n ôl i'r hen ben, Dafydd Noel Williams, i rwydo o 15 llath.

Rasus Eithafol.



Mae Gareth Hughes yn prysur gwneud enw iddo'i hun fel rhedwr mynydd galluog iawn ar bellteroedd eithafol. Eisoes daeth yn gydradd gyntaf mewn Ras Eithafol Vegan yn Eryri, ac yn ystod y mis daeth yn ail mewn ras eithafol arall yn Ardal y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr. Bu'n rhedeg am saith awr a hanner, gan orffen ychydig y tu ol i redwr o Norwy sy'n cael ei gysidro ymhlith goreuon Ewrop. Mae'r ddwy ras wedi bod yn rhan o gyfres a elwir yn SkyUltra. Yng ngogledd Lloegr hefyd yn yr un ras daeth Sarah Ridgway o Lanberis yn gyntaf ymhlith y merched, gan orffen y cwrs mewn tywydd echrydus, a hynny mewn amser o ychydig dros naw awr.

Bu Gareth hefyd o fewn trwch blewyn i dorri'r record am yr amser cyflymaf i gwblhau Pedol yr Wyddfa, gan redeg o Ben Gorffwysfa i fyny'r Grib Goch i gopa'r Wyddfa, cyn concro'r Lliwedd a dychwelyd i Ben Gorffwysfa.

Ymarfer yn unig oedd Ras Pedol Peris i Dyfed Thomas, gan iddo, gyda'i gyfaill Sam Orton o Lanfairfechan, redeg Llwybr Arfordir Ynys Mon i gyd dros gyfnod o dri diwrnod. Gan gychwyn yng Nghaergybi, roedd angen rhedeg 35 milltir y diwrnod cyntaf a chyrraedd Amlwch. Roedd 66 milltir yn ei wynebu ar yr ail ddiwrnod, wrth ddilyn y llwybr o Amlwch i'r Benllech, o amgylch trwyn Penmon, Biwmares, Brynsiencyn a gorffen yn Aberffraw. Ac ar y diwrnod olaf, mater bach o 34 milltir arall o Aberffraw i Gaergybi. Cwblhawyd cyfanswm o 135 milltir mewn llai na 25 awr, gan orffen yn bedwerydd yn y 'ras'.

Roedd Llanberis yn fwy pwylllog eu pasio ar ddechrau'r ail hanner. Chwarae trwy ganol cae yn hytrach na'r bêl hir. Ac, wedi 55 munud, daeth gôl dda Adam Hughes i unioni'r sgôr. Torrodd i mewn o'r chwith a churo'r gôl-geidwad gydag ergyd gryf tu mewn i'r postyn agosaf.

Dipyn o gythraul i'r gêm wedyn a sawl cerdyn melyn yn ymddangos. Ond, Llanrug yn cryfhau, ac wedi awr o chwarae aeth y tîm cartref ar y blaen. Un dau celfydd rhwng Dafydd Noel a Mathew Philips a'i bas o yn berffaith i Marvin Pritchard wrth y postyn agosaf.

Yn ôl daeth Llanberis ond eto sawl cyfle yn mynd ar gyfeiliorn. A oedd amser ychwanegol i fod? Cliriodd Darren Philips beniad oddi ar y llinell, ac yna David Jones (Llanberis) yn penio dros y traws o ddwy lath wedi taflïad hir.

Yna, yn y funud olaf, Andrew Williams a Tom Owen yn ymgiprys am y bêl ar ochr y cwrt cosbi, a'r bêl rhywsut yn tasgu dros ben Lewis Williams, gôl geidwad Llanberis.

Llanrug 3 Llanberis 1. O ran cyfleon dylai Llanberis fod tipyn agosach i ennill ond tactegau Llanrug gyda 10 dyn yn fwy effeithiol. Ymlaen â Llanrug felly i gyfarfod y Cofis ar Eithin Duon. Siawns am dorf dda arall. Gwelais y Cofis yn trechu Bangor yn ddiweddar. Bydd hon yn dipyn o sialens, ond eto cwpan yw cwpan.

Daeth llwyddiant i'r ddau dîm yn ail rownd Tlws F.A. Cymru – Llanberis o 4-1 ym Mhenmaenmawr, a Llanrug o 6-4 draw yn y Blaenau. Wn i ddim am y rownd nesaf – Llanrug yn erbyn Llanberis tybed?

Mae tîm Waunfawr wedi cael dechrau da i'w tymor ac yn ail yng Nghynghrair Gwynedd, wedi ennill 5 o'u 7 gêm gyntaf. Yr hen elynion o lawr y lôn, Bontnewydd, sydd ar y blaen ond wedi chwarae mwy o gemau. Gobeithio y gall Y Beganifs ddal eu tir. Maent yn gwella o dymor i dymor. Ai dyma tymor yr esgyn?

Rhedeg i Gymru.

Cafodd Steffan o Pen y Bwlch, Dinorwig, y fraint o gael ei ddewis i redeg i dîm Cymru yn y British and Irish Championships ym Metws y Coed ddydd Sadwrn 19 o Fedi. Mae Steff yn rhedeg i Eryri Harriers, ac wedi dechrau rhedeg tua blwyddyn a hanner yn ôl bellach. Rhoddodd her iddo'i hun i redeg ras 10k Deiniolen 2014 - ac aeth ymlaen o fanna. Roedd yn safle 11 yn ras Deiniolen 2015 gan ennill safle cyntaf 'Dynion Iau' y ras. Yn ras Betws y Coed rheddodd at Lyn Elsi gan orffen yn safle 26. Mae wedi mwylhau y profiad arbennig ac yn edrych ymlaen i obeithio cael ei ddewis eto yn y dyfodol.



Pencampwr Byd!

Nid yn aml y bydd un o athletwyr y fro yn cael ei goroni yn bencampwr byd, ond nid yn aml y bydd son am y gamp hon ar unrhyw fath o dudalen chwaraeon chwaith.

Mae Keith Rothwell o Frynrefail wedi cystadlu fel rhan o dîm yng nghymalau nofio Triathlon Llanc y Llechen, ond doedd y dwr a nofiodd ynddo ganol Awst ddim byd tebyg i ddwr Llyn Padarn. Bu Keith yn cystadlu mewn ras nofio anghyffredin iawn yn Llanwrtyd yng nghanolbarth Cymru, a hynny mewn cors.

Er mwyn denu mwy o ymwelwyr i'r dref, mae trigolion Llanwrtyd yn trefnu digwyddiadau 'gwahanol' megis rasys rhwng beicwyr mynydd, merlod a rhedwyr. Ond yr odiaf ohonynt mae'n debyg yw'r nofio efo snorcel mewn cors. Mae ffos yn cael ei hagog mewn mawnog gorslyd, a'r nofwyr yn gorfod ymladd drwy laid brown ar ei hyd gan ddefnyddio snorcel i anadlu. Keith enillodd y gystadleuaeth i nofwyr dros 50 oed, a chael ei goroni yn Bencampwr y Byd.



DATBLYGIADAU CWPAN Y BYD

Cwpan y Byd yw siop ffenestr bob camp. Yno daw'r goreuon - ac ambell wlad fechan - i herio ei gilydd. Disgwylir i bob cystadleuaeth adael ei marc ar ddatblygiad y gêm. Fel arfer edrychir am feithrin sgiliau, neu dactegau. Rhyw ddychwelyd at ethos y gwahanol gampau, a hynny'n rhydd o gyffuriau, gobeithio. O ran datblygiad y gêm mae arwyddion pendant ym mherfformiadau y gwledydd ail-ddosbarth yng Nghwpan Rygbi'r Byd. Bydd ymdrech Siapan yn trechu De'r Affrig yn rhan o chwedloniaeth y gêm. Ac roedd ambell fflach gan Uruguay ar lwyfan eang Stadiwm y Mileniwm. Yn ddadleuol, neu er gwell, technoleg yw gwaddol y dair brif gystadleuaeth byd ddiwethaf.

O fyd criced daeth Hawkeye i ddyfarnu sawl cwestyniad o farn dyfarnwr. O fyd y bêl gron daeth technoleg llinell y gôl, a 'spray' gwyn y dyfarnwr. Am y datblygiad arall o ddyfarnwyr ychwanegol yng nghyffiniau'r gôl, wn i ddim. Hwy yw'r agosaf at sawl digwyddiad ond maent yn sefyll yno yn gwneud a dweud dim.

Yna rygbi, a dyma'r datblygiad mwyaf. Dyma oes y TMO! Yn awr, nid yn unig mae'n barnu a yw cais yn ddilys ond gall stopio'r gêm os ydy o - nid y dyfarnwr yn gweld tacl hwyr, neu fagriad etc. Ai ef bellach yw'r dyfarnwr? Oherwydd yr aml gyfeirio roedd hanner gyntaf gêm Lloegr v Fiji yn 53 munud o hyd. Dim o'i le, meddai rhai, ond yn sicr mae'n amharu ar lif y gêm, ac mae ansawdd gêm o rygbi yn ddibynnol ar lif naturiol.

Yr unig beth sy'n fy anesmwytho yw mai yr un yw'r rheolau ar gae'r tîm pentref ac Old Trafford, Tŷ Newydd a Lords, a chae'r Cofis a Stadiwm y Mileniwm. Rhaid derbyn y dyfarniad doed a ddelo ar y meysydd llai. Y dyfarnwr sydd â'r gair olaf.

Ac onid yw pob rheol/deddf ym myd y campau yn dechrau gyda'r geiriau, "Os ym marn y dyfarnwr..."

Tim Rygbi o Batagonia

Roedd tîm rygbi o Drelew, Patagonia, yng Nghaernarfon y mis yma am ychydig ddyddiau ac fe gawson nhw groeso mawr ym mhentre bach Llanberis yn ystod eu hymweliad. Yma i weld gemau Cwpan Rygbi y Byd oedd y criw, ond mae na gysylltiad mawr rhwng Y Wladfa a Chaernarfon. Fe gawsant ddiwrnod diddorol iawn yn Y Mynydd Gwefru, Amgueddfa Lechi a Reilffordd Llyn Llanberis.



Y tîm o'r Wladfa yn Yr Amgueddfa Lechi, Llanberis.

Llwyddiant Sgio i Ysgol Dolbadarn.



Mewn cystadleuaeth ddiweddar ym Mhlas y Brenin, daeth tîm Ysgol Dolbadarn, Llanberis yn drydydd, gyda Jac Petch-Jones yn ennill y gystadleuaeth unogol i fechgyn dan 12 oed. Yn ogystal a Jac, aelodau eraill y tîm oedd Jack Laws, Ffion Harland a Megan Ingle.

APÊL GARETH

Ychydig fisoedd yn ôl dechreuais gyfres yn yr Eco yn holi am 'feysydd coll' y timau pêl-droed lleol. Diolch i Gwynfor a Kevin cafwyd hanes meysydd timau ardaloedd Bethel a Llanrug. Diddorol oedd eu cyfraniad. Braff sylwi felly fod Gareth Roberts, gŵr y mapiau a'r teithiau cerdded, am fynd â'r syniad ymhellach. Mae yntau ar drywydd y 'meysydd coll' ond yn ymestyn y diriogaeth i gynnwys Gorllewin Gwynedd.

Pa ran o'n hanes chwaraeon sydd bellach dan stadau tai neu ffatrioedd, neu'n feysydd porfa. Y bwriad yw casglu gwybodaeth ar gyfer arddangosfa y Meysydd Pêl-droed Coll yn Llanberis yn y dyfodol.

Yn ein bro ni mae toreth o dimau diflanedig - a'r fath enwau! Llanberis Comrades, Rhiwlas Athletic, Cwm y Glo, Ebenezer, Clwt y Bont, Rhyddallt Comrades a Glascoed Rangers. Os oes gan unrhyw un wybodaeth neu lun gellir cysylltu â Gareth ym Menter Fachwen (01286 870681).

TERM YN CORDDI

Beth mae CYFARTAL yn ei olygu i chwi? Yr un nifer o bwyntiau neu goliau neu rediadau gan y timau sy'n ymgiprys? Dyna fy niffiniad i ond nid felly adran chwaraeon Radio Cymru. Ym myd criced os nad yw un tîm yn ennill ceir y term GÊM GYFARTAL ei ddefnyddio er nad yw'r ddau dîm, fel arfer, wedi sgorio yr un nifer o rediadau, neu gymryd yr un nifer o wicedi. Onid GÊM DDI-GANLYNIAD yw hi felly, gyda'r pwyntiau yn cael eu dosrannu yn ôl cyfraniad y ddau dîm i'r gêm?

Chwaraeon

Torgoch ar y Tafwys.



Dros yr haf bu tîm rhwyfo Cychod Celtaidd Llanberis (Clwb Antur Dyffryn Peris) yn cymryd rhan mewn dwy ras. Bu 5 aelod o'r Clwb yn rasio o Biwmares, rownd Ynys Seiriol ac yn ol, 12 milltir. Hwn oedd yr ail dro i'r ras hon gael ei threfnu gan Glwb Rhwyfo Biwmares, ond y tro cyntaf i aelodau o Lanberis gymryd rhan. Mae'r llun yn dangos yr aelodau ar ddiwedd y ras, efo'r tlws am fod yn gyntaf yn y categori Dechreuwyr, mewn 99 munud. Yn dilyn y llwyddiant hwn roedd brwydr arall yn eu hwynebu mewn ras Dechreuwyr yng Nghaernarfon, efo Llanberis yn ennill unwaith eto. Cafwyd tystysgrif arall i'r casgliad. Mae'r lluniau yn dangos y ras yng Nghaernarfon, ac un yn dangos yr aelodau yn dal eu tlws ar ol ras Ynys Seiriol.

Ond penllanw eu llwyddiant yn ddi-os oedd eu hantur ar Afon Tafwys yn Llundain. Aeth 6 aelod o'r Clwb i gymryd rhan yn y Great River Race yn Llundain, yn y cwch Celtaidd Hir a enwir yn Torgoch. Roedd 320 o gychod rhwyfo traddodiadol yn cymryd rhan. Roedd rhaid rhwyfo 21.6 milltir i fyny'r afon efo'r gwynt croes yn rhuo lawr yr afon. Roedd awyrgylch a golygfeydd gwych ar gael, efo nifer fawr o wylwyr a chefnogwyr ar hyd y ffordd ac ar bron i ddeg ar hugain o bontydd, a nifer fawr arall yn barod i groesawu'r rhwyfwyr gartref. Derbyniodd pob cyfranogwr dystysgrif ar ôl cwblhau'r farathon o ras. Cymerodd dair awr i'w chwblhau, ac roedd y siampen a ddilynodd yn haeddiannol iawn!



3-3-3iathlon



Na, nid cod cyfrin na chystadleuaeth newydd, ond rhifau sy'n ffitio llwyddiannau Phil Lynes o Lanrug yn ystod mis Medi. Bu'n cystadlu mewn tair triathlon ac enillodd dair gwobr (wel, pedair a dweud y gwir, ond mwy am hynny maes o law). Yn gynharach yn y mis daeth yn drydydd mewn cystadleuaeth Sbrint yn Y Rhyl. Yna, penwythnos prysur ar draethau Llanddwyn, Coedwig Niwbwrch a ffyrdd Mon yng nghystadleuaeth Triathlon y Tywod. Ar y dydd Sadwrn daeth yn drydydd yn y Sbrint, ac yna, cystadlu eto ar y Sul yn y Driathlon llawn – ac ennill. Ond roedd pob cystadleuydd fyddai'n cymryd rhan yn y Sbrint a'r Llawn yn cael eu cyfrif yn rhan o'r 'Brwnt', ac mi oedd yn frwnt gorfod cystadlu ar dair camp ddwywaith mewn dau ddiwrnod! Roedd amser y Sbrint ac amser y Llawn yn cael eu adio at ei gilydd, a'r amser lleiaf yn fuddugol. A daeth Phil yn ail yn y 'Brwnt' hefyd, a dyna'r bedwerydd wobr. Mae tymor y triathlons yn yr ardal hon yn dirwyn i ben, ond mae un arall i ddod, sef triathlon yr Eira yng Nghapel Curig – a bydd Phil yn cystadlu yn honno hefyd. Pob llwyddiant iddo.